------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# ogfennau Ategol - Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 16 Mawrth 2017

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Steve George**

Committee Clerk

0300 200 6565

SeneddDGCh@cynulliad.cymru

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

# - Ymatebion i'r ymgynghoriad - Dyfodol S4C

## 8 Ymatebion i'r ymgynghoriad - Dyfodol S4C

(Tudalennau 1 - 119)

**Dogfennau atodol:**

FS4C01 BBC Cymru

FS4C02 Sian Morgan Lloyd a Dr Caitriona Noonan, Prifysgol Caerdydd

FS4C03 Cymdeithas yr Iaith

FS4C03 Cymdeithas yr Iaith (Mewnol yn Unig)

FS4C04 Equity (Saesneg yn Unig)

FS4C05 Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn Unig)

FS4C06 J Y Comben (Saesneg yn Unig)

FS4C07 Pact (Saesneg yn Unig)

FS4C08 Rondo Media

FS4C09 TAC

FS4C10 Huw Marshall

FS4C11 Tinopolis

FS4C12 Comisiynydd y Gymraeg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Ymatebion i'r ymgynghoriad Dyfodol S4C

Mawrth 2017

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r dogfen hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddDGCh**
Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddDGCh**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Cynnws | Contents


| **Rhif \| Number** | **Sefylliad** | **Organisation** |
|---|---|---|
| FS4C01 | BBC Cymru | BBC Wales |
| FS4C02 | Sian Morgan Lloyd a Dr Caitriona Noonan, Prifysgol Caerdydd | Sian Morgan Lloyd and Dr Caitriona Noonan,Cardiff University |
| FS4C03 | Cymdeithas yr Iaith | Cymdeithas yr Iaith (Welsh Only) |
| FS4C04 | Equity (Saesneg yn Unig) | Equity |
| FS4C05 | Sefydliad Materion Cymreig (Saesneg yn Unig) | Institute of Welsh Affairs |
| FS4C06 | J Y Comben (Saesneg yn Unig) | J Y Comben |
| FS4C07 | Pact (Saesneg yn Unig) | Pact |
| FS4C08 | Rondo Media | Rondo Media |
| FS4C09 | TAC | TAC |
| FS4C10 | Huw Marshall | Huw Marshall |
| FS4C11 | Tinopolis | Tinopolis |
| FS4C12 | Comisiynydd y Gymraeg | Welsh Language Commissioner |

## 1. Cyflwyniad a chefndir

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ei berthynas gydag S4C – perthynas gref sydd wedi bod yn werthfawr i gynulleidfaoedd yng Nghymru ers 1982.

Mae'r papur hwn yn disgrifio partneriaeth greadigol BBC Cymru gydag S4C, ac yn egluro y berthynas rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C.

Rydym yn edrych ymlaen at yr Adolygiad Annibynnol o S4C gan y bydd yn gyfle i drafod rôl cyfryngau cyfrwng Cymraeg o fewn cyd-destun sy'n symud yn gyflym.

## 2 Rhaglenni'r BBC ar gyfer S4C

Wrth galon perthynas y BBC gydag S4C mae'r hyn a elwir 'y rhaglenni a gyfrennir'. Mae Deddf Darlledu 1990 yn nodi fod angen i'r BBC ddarparu dim llai na 520 o oriau o gynnwys y flwyddyn i S4C. Mae'r bartneriaeth greadigol wedi bod wrth galon darlledu cyfrwng Cymraeg ers 1982, ac yn cefnogi pwrpasau cyhoeddus y ddau sefydliad..

Mae'r rhaglenni yn cynnwys newyddion, materion cyfoes, chwaraeon byw, *Pobol y Cwm* a sylw eang i'r Eisteddfod Genedlaethol.

Gwerth y rhaglenni yma yn y flwyddyn 2017/18 fydd £19.4m.

### 2.1 Newyddion a Materion Cyfoes

Mae'r rhaglen Newyddion am 9 o'r gloch yn parhau wrth wraidd ein darpariaeth ar gyfer S4C. Mae'r rhaglen *Newyddion 9* yn gosod safon uchel ac mae gwerthfawrogiad y gynulleidfa a'r ffigurau gwylio wedi cynyddu'n raddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gyda Bethan Rhys Roberts a Rhodri Llywelyn wrth y llyw, mae'r rhaglen yn dadansoddi prif straeon newyddion y dydd. Mae'n torri tir newydd hefyd gydag adroddiadau ar straeon gwreiddiol o Gymru.

Mae rhaglenni materion cyfoes a newyddion eraill yn cynnwys y sioe banel sy'n trafod materion cyfoes, *Pawb a'i Farn*, a gyflwynir gan Dewi Llwyd.

Rydym hefyd yn darparu rhaglenni byw o gynadleddau pleidiau gwleidyddol. Daeth *Y Sgwrs* i ben ym mis Gorffennaf 2016 a bydd rhaglen wleidyddol newydd ganol wythnos, *O'r Senedd* yn darlledu o ddiwedd mis Chwefror ymlaen, gan ganolbwyntio ar rai o bynciau gwleidyddol llosg yr wythnos.

Bob diwrnod o'r wythnos waith, rydym hefyd yn darparu bwletin newyddion tua 6pm, sef *Ffeil*, sydd wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer pobl ifanc

Cynhyrchwyd rhaglen o ganlyniadau byw etholiad y Cynulliad Cenedlaethol dros nos ym mis Mai 2016 ar gyfer S4C.

### 2.2 Drama

Mae *Pobol y Cwm* yn dilyn hynt a helynt cymuned Cwmderi ac mae wedi hen arfer delio â themâu anodd a straeon dadleuol. Mae'r rhain yn cynnwys alcoholiaeth a thrais yn y cartref. Mae *Pobol y Cwm* wedi derbyn gwobrau cenedlaethol gan yr elusen Mind am y ffordd mae wedi portreadu rhai i'r materion dyrys hyn.

Hi yw y gyfres ddyddiol sy'n darlledu drwy'r flwyddyn mwyaf poblogaidd ar S4C ac mae'n gonglfaen i'r amserlen nosweithiol.

### 2.3 Chwaraeon

Mae chwaraeon byw yn rhan fawr o'n cyflenwad rhaglenni i S4C. Yn flynyddol, mae'n cynnwys gemau rygbi'r Pro 12, gemau cartref Cymru yn nghystadleuaeth y Chwe Gwlad yn fyw, yn ogystal â gemau rhyngwladol yr Hydref.

Denodd gemau rygbi byw y Pro 12 yn y rhaglen Clwb Rygbi gynulleidfa o 54,000 ar gyfartaledd yn 2016 ac fe gynyddodd hyn wedi i'r gemau ddychwelyd i slot prynhawn Sadwrn (o brynhawn dydd Sul) ym mis Medi 2016.

Roedd y llynedd yn flwyddyn arbennig o gyffrous ym myd chwaraeon wrth i dîm pêl-droed cenedlaethol Cymru gyrraedd gemau go-gynderfynol cystadleuaeth  Ewro 2016. Darparodd BBC Cymru raglenni byw o bedair o gemau Cymru, yn ogystal â chynnwys digidol ar gyfer platfformau eraill.

## 2.4 Eisteddfod Genedlaethol

Mae sylw i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn parhau yn gonglfaen ein rhaglenni ar gyfer S4C a'r llynedd cafodd y rhaglenni eu darparu mewn HD am y tro cyntaf. Defnyddir cyflwynwyr arbenigol a rhai newydd gyda chyfanswm o oddeutu 100 awr o sylw cynhwysfawr i'r ŵyl. Mae'r rhaglenni'n gymysgedd o gystadlaethau a dadansoddi a golwg ysgafnach ar y Maes a'r gweithgareddau ymylol.

## 2.5 Rhaglenni ffeithiol

Rydyn ni hefyd yn darparu nifer fechan o raglenni ffeithiol i S4C, gan gynnwys rhaglenni Cymraeg a Saesneg cyfatebol fel rhaglen ddogfen Huw Edwards ar Batagonia. Mae sylw i BBC Canwr y Byd Caerdydd hefyd yn gynhyrchiad cefn-wrth-gefn a fydd yn dychwelyd i'n sgrîn ym mis Mehefin 2017.

## 2.6 Cydweithio golygyddol pellach

Y tu hwnt i'r 520 awr statudol, mae BBC Cymru yn gweithio'n agos gydag S4C ar brosiectau rhaglenni sy'n gallu bod o fudd i gynulleidfaoedd Cymraeg neu Saesneg eu hiaith. Er enghraifft, mae cyfres ddrama *Hinterland/Y Gwyll* wedi ei gyd-gomisiynu gan y BBC ac S4C, ac mae bellach yn cael ei dosbarthu ar draws y byd. Mae dramâu a rhaglenni ffeithiol tebyg yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

*Oriau gwreiddiol BBC Cymru ar S4C yn ôl genre 2015/16*

| **Genre** | **Awr** |
|---|---|
| Drama, Comedi, Adloniant, Cerddoriaeth, Celfyddydau | 168 |
| Newyddion a Materion Cyfoes | 264 |
| Chwaraeon | 81 |
| Addysg, Ffeithiol a Chrefyddol | 3 |
| Plant | 0 |
| Ailddarllediadau | 100 |
| Cyfanswm Oriau | 616 |

Mae cynnwys y BBC ar gyfer S4C yn cael ei gynhyrchu gan dimau cynhyrchu mewnol ac yn ategu'r rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu'n annibynnol sef gweddill gwasanaeth S4C.

## 3 Perfformiad

Mae rhaglenni'r BBC wrth galon amserlen S4C. Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae ein cyfraniad yn cynnwys Newyddion 9, y ddrama nosweithiol *Pobol y Cwm*, rygbi domestig a rhyngwladol byw a sylw helaeth i'r Eisteddfod Genedlaethol. At ei gilydd, mae cynyrchiadau'r BBC ar S4C yn cyfrannu 37% o oriau gwylio S4C

- Denodd y darllediadau o gemau rygbi byw y Pro12 yn y rhaglen *Clwb Rygbi* gynulleidfa o 54,000 ar gyfartaledd yn 2016.

- Mae'r brif raglen newyddion gyda'r nos *Newyddion 9* yn denu cynulleidfa o 21,000 ar gyfartaledd, sy'n uwch na'r blynyddoedd blaenorol oherwydd bod y rhaglen wedi datblygu agenda benodol ar Gymru.

- Mae'r opera sebon dyddiol, *Pobol Y Cwm*, yn denu cynulleidfa o 43,000 i gyd wrth ddarlledu'r prif raglenni a'u hailadrodd y diwrnod canlynol.

- Mae cynnwys S4C ar BBC iPlayer yn cael ei weld dros 100,000 gwaith bob wythnos, ac mae hyn yn cyfrannu hyd at 3% o gyfanswm oriau gwylio S4C.

## 4 Darparu gwerth ychwanegol i S4C

Y tu hwnt i'r costau uniongyrchol o gynhyrchu 520 o raglenni i S4C, mae'r BBC yn darparu gwerth ychwanegol i'r sianel mewn nifer o ffyrdd arwyddocaol.

Mae'r ffynonellau ychwanegol yn cynnwys:

- Mynediad at wasanaeth casglu newyddion y BBC – Mae'r rhaglen newyddion *Newyddion 9*, sy'n cael ei chynhyrchu gan y BBC ar gyfer S4C, yn gallu cael mynediad at wasanaeth casglu newyddion y BBC ar draws y byd am ddim cost ychwanegol er mwyn adrodd ar y prif ddigwyddiadau rhyngwladol e.e. etholiadau 2016 UDA, yr argyfwng mudwyr yn Ewrop.

- Rhaglenni Chwaraeon - Mae'r BBC yn darparu rhaglenni chwaraeon rhyngwladol byw i S4C heb basio costau'r hawliau ymlaen. Mae hyn yn cynnwys hawliau i raglenni byw o'r Chwe Gwlad, gemau rhyngwladol yr Hydref ac Ewro 2016

- Mynediad at iPlayer – Mae S4C yn sianel iPlayer lawn ac o ganlyniad yn rhoi mynediad at oddeutu 1,200 o ddyfeisiau sydd wedi eu cysylltu gydag iPlayer. Mae cost iPlayer i S4C ar sail 'nid er elw' gan gydnabod y bartneriaeth unigryw sy'n bodoli rhwng y BBC ac S4C

- Mynediad at Archif y BBC – Mae gan raglenni a gomisiynir gan S4C yr hawl ddefnyddio archif rhaglenni BBC Cymru Wales ar delerau nad ydynt ar gael i ddarlledwyr eraill

## 5. Y Sgwâr Canolog a'r Egin

Bydd BBC Cymru yn adleoli ei phrif ganolfan gynhyrchu i'r Sgwâr Canolog, yng nghanol dinas Caerdydd yn 2019. Yn sgil y datblygiad hwn, bydd staff BBC Cymru sy'n gweithio yn y safle presennol yn Llandaf yn symud i'r ganolfan newydd sydd gyferbyn â gorsaf Drenau Caerdydd Canolog.

Mae'r isadeiledd technoleg Llandaf wedi dyddio ac mae gweithio mewn adeilad sydd wedi'i osod allan yn wael yn cyfyngu ar y staff. Bydd yr adeilad newydd yn hanner maint y cyfleusterau presennol a bydd y dechnoleg newydd yn golygu y bydd yn rhatach i gynnal ein gwasanaethau teledu, radio ac ar-lein. Fel rhan o'r datblygiad newydd, fe amcangyfrifir y bydd oddeutu 20 o staff S4C yn cyd-leoli yn yr adeilad newydd ac mae cynlluniau ar droed i rannu'r gwasanaethau darlledu gyda S4C er mwyn arbed costau gweithredol i'r ddau ddarlledwr. Mae disgwyl i'r trafodaethau rhwng y darlledwyr gwblhau'n fuan.

Bydd S4C hefyd yn adleoli ei bencadlys i ganolfan Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym wrthi'n trafod â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant am ddichonolrwydd adleoli ein staff sydd yn y stiwdio yng Nghaerfyrddin i ganolfan Yr Egin ac mae'r trafodaethau ariannol a gweithredol hynny yn dal i fynd rhagddynt gyda'r Brifysgol.

## 5. Ariannu S4C drwy ffi'r drwydded

Yn ogystal â chyflenwad statudol o raglenni gan y BBC, mae S4C hefyd yn derbyn arian yn uniongyrchol o ffi'r drwydded gan Ymddiriedolaeth y BBC,

gwerth £74.5m y flwyddyn i S4C yn 2017/18. Mae'r ffigwr yma yn sefydlog tan ddiwedd cyfnod ffi'r drwydded bresennol yn 2021/22.

Mae Siarter Frenhinol newydd y BBC (2017) yn cadarnhau y dylai Ffi'r Drwydded barhau i gefnogi a darparu S4C, a bod yn sail i hynny. Mae'r Siarter hefyd yn nodi y dylai y 'BBC ac S4C rannu'r nod o gydweithio i arsylwi a diogelu annibyniaeth y ddau, ac i wneud y defnydd gorau o'r ariannu er mwyn gwarchod buddiannau cynulleidfaoedd (yn enwedig y rheiny sy'n siarad Cymraeg), cyn belled â bod hynny'n gyson gyda rhwymedigaethau y ddau.'[1]

## 6. Trefniadau atebolrwydd i'r dyfodol

Mae dwy ddogfen yn sail i'r ffordd y gweinyddir y bartneriaeth bresennol rhwng y ddau ddarlledwr.

Yr un cyntaf yw'r Cytundeb Gweithredu sy'n bodoli rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C. Mae hwn yn canolbwyntio ar y berthynas o ariannu uniongyrchol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod. Yr ail yw'r ddogfen 'Partneriaeth Strategol'. Mae hwn yn gosod allan sut y caiff y rhaglenni sy'n cael eu cyfrannu eu cyflenwi gan BBC Cymru

Mae'r ddau yn dirwyn i ben yn fuan ac angen eu diweddaru i adlewyrchu model llywodraethiant newydd y BBC. Mae'r BBC ac S4C wrthi'n trafod ar hyn o bryd y trefniadau atebolrwydd newydd a fydd yn cymryd y Siarter newydd i ystyriaeth ac, yn enwedig, sefydlu Bwrdd Unedol newydd i'r BBC.  Y disgwyl yw mai canlyniad y broses hon fydd un trefniant atebolrwydd symlach a fydd yn cwmpasu agweddau rhaglenni a chyllidebol y bartneriaeth.

[1] BBC Charter Framework Agreement (2017), t39.
http://downloads.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/about/how_we_govern/2016/agreement.pdf

Ymateb gan Sian Morgan Lloyd a Dr Caitriona Noonan, Prifysgol Caerdydd / Evidence from Sian Morgan Lloyd and Dr Caitriona Noonan, Cardiff University

Mae S4C yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau amlygrwydd yr iaith Gymraeg a chefnogi democratiaeth yng Nghymru. Mae gan y darlledwr rôl ganolog wrth gyflawni dyheadau strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gan gynnwys ei hymrwymiad diweddaraf i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cysylltiad agos rhwng sefyllfa S4C â bywiogrwydd iaith, diwylliant a hunaniaeth Cymru, felly rydym yn croesawu ymdrechion i sicrhau cynaliadwyedd y darlledwr ar gyfer y dyfodol. Mae ein cyflwyniad yn mynd i'r afael â'r themâu canlynol:

1. Ariannu S4C
2. Annibyniaeth a llywodraethu
3. Perthynas S4C gyda'r BBC
4. Cylch gwaith a gweledigaeth S4C mewn economi ddigidol
5. Cynnal talent o Gymru

## 1. Ariannu S4C:

Fel y nodir yn adroddiad diweddar y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru (PDGC 2017), mae'r cyllid ar gyfer S4C wedi gostwng tua 36 y cant mewn termau real ers 2010. Byddai rhagor o doriadau sylweddol i gyllideb S4C, ochr yn ochr â thoriadau i gyllideb ganolog y BBC, yn cael effaith andwyol ar ansawdd ac amrywiaeth y cynnwys gwreiddiol a gomisiynir gan S4C.

Rydym o'r farn y byddai cael sefydlogrwydd yn nhrefniadau ariannol S4C yn caniatáu i'r darlledwr gynllunio'n effeithiol ar draws yr amrywiaeth o eang o raglenni a gomisiynir ganddi ar hyn o bryd. Mae ymchwil yn amlygu pwysigrwydd cynllunio strategol hirdymor mewn meysydd allweddol fel drama lle mae trefniadau cyd-gynhyrchu a chyd-ariannu cymhleth yn ennill eu plwyf yn gynyddol (McElroy a Noonan 2016). Felly, rydym yn argymell y dylid cael mwy o sicrwydd ynghylch y trefniadau ar gyfer cyllid craidd S4C yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym hefyd yn credu y dylai unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol fynd i'r afael â'r angen am lefelau digonol o gyllid. Byddai cyllid priodol yn galluogi S4C i

barhau i ddarparu'r ystod eang o raglenni gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir ganddi ar hyn o bryd, gan gynnwys ym meysydd newyddion, materion cyfoes, drama, y celfyddydau, adloniant ffeithiol a chynnwys i blant. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bod darpariaeth Gymraeg o bwys ym mhob un o'r *genres* yma i allu diwallu anghenion amrywiol y gymuned gyfan. Rhaid i ddarlledwyr ieithoedd lleiafrifol fel S4C ddenu a darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n amrywio'n fawr o ran oedran a diddordebau, yn ogystal â sicrhau bywiogrwydd a gwydnwch gweithredol yr iaith. Felly, mewn trafodaethau am drefniadau cyllido, rhaid ystyried cyfraniad unigryw y darlledwr at hunaniaeth greadigol a chymdeithasol y DU.

Fel y nodwyd yn adroddiad PDGC (2017), rhaglenni a gaiff eu hailddangos sydd i'w cyfrif am 57 y cant o allbwn S4C erbyn hyn. Rydym yn credu bod trefniant ariannu sefydlog a phriodol yn hanfodol er mwyn comisiynu rhagor o gynnwys gwreiddiol. Er mai am resymau ariannol y gwneir hyn yn aml, nid yw cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi bob amser ac mae hefyd yn lleihau'r ymgysylltiad rhwng y darlledwr a'r sector cynhyrchu. Mae prosiectau cydweithredol gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol yn galluogi'r darlledwr a'r cwmni cynhyrchu i gyflwyno prosiectau o raddfa ac uchelgais greadigol, ac maent yn cynhyrchu refeniw drwy hawliau eilaidd a gwerthu cynnwys a fformatau i'r farchnad dramor.

Mae ymchwil yn dangos pwysigrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel S4C i gynaliadwyedd y sector teledu yng Nghymru yn ogystal â'r economi greadigol gynhenid (McElroy, Noonan a Blandford 2015; McElroy a Noonan 2016). O ran gwerth economaidd y gellir ei fesur (e.e. comisiynu yn lleol, defnyddio gweithwyr llawrydd) honnir bod pob £1 a fuddsoddir gan S4C yn economi Cymru a'r DU yn cynhyrchu gwerth ariannol o £2.09 (Adroddiad Blynyddol S4C 2015/16 : 67). Ar ben hynny, mae gwaith S4C yn cael cryn effaith anuniongyrchol e.e. o ran hyrwyddo diwylliant a thirwedd Cymru i gynulleidfaoedd fyd-eang drwy eu strategaeth gomisiynu, fel gyda rhaglen ddrama ragorol *Y Gwyll* (McElroy, Noonan a Blandford 2015 ; McElroy a Noonan 2016). Felly, byddai cryfder economaidd a chreadigol S4C yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr economi greadigol yma yng Nghymru.

## 2. Annibyniaeth a llywodraethu:

Yn ein barn ni, dylai S4C barhau i fod yn ddarlledwr annibynnol sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus. Dylai hefyd fod â'i systemau llywodraethu ei hun. O

ystyried cymhlethdod ei gylch gwaith, mae'n hanfodol ei fod yn cadw ei annibyniaeth a’i hawl i wneud penderfyniadau golygyddol er mwyn cyflawni ei gyfraniad at Gymru a'i chymunedau. Fodd bynnag, dylai fod atebolrwydd a thryloywder priodol ar gyfer annibyniaeth o'r fath o ystyried y swm sylweddol o arian cyhoeddus dan sylw.

Rydym yn croesawu diddordeb y pwyllgor mewn ystyried datganoli cyfrifoldeb darlledu a/neu S4C i Gymru. Mae hwn yn fater cymhleth ac mae’n codi llawer o faterion pellach i'w hystyried o safbwynt polisi a rheoleiddio. Byddem yn annog trafodaethau cyhoeddus ac ymchwil pellach i’r newid posibl hwn, yn enwedig o ran y goblygiadau ariannu, trefniadau rheoleiddio, dosbarthiad ar draws y sbectrwm a sut y byddai hyn yn effeithio ar dirwedd cyfryngol ehangach Cymru. Mae'r Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astuiaethau Diwylliannol mewn sefyllfa i allu hwyluso’r ddadl hon ac rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu ymhellach.

## 3. Perthynas S4C gyda’r BBC

Mae ecoleg benodol y cyfryngau yng Nghymru yn golygu ei bod yn hanfodol cael lluosogrwydd mewn darpariaeth. Mae'n amlwg bod S4C wedi cael perthynas gydweithredol gyda'r BBC dros y blynyddoedd diwethaf a cheir tystiolaeth o gydweithio llwyddiannus. Mae ymchwil yn amlygu manteision rhannu adnoddau i’r ddau sefydliad, yn enwedig o ran cynhyrchu Pobol y Cwm yn stiwdio ddrama Porth y Rhath fel rhan o'r trefniant statudol (McElroy, Noonan a Blandford 2015; McElroy a Noonan 2016). Mae manteision y trefniant hwn yn cynnwys bod yn economaidd effeithlon a gwerthoedd cynhyrchu gwell, ynghyd â rhannu adnoddau gan gynnwys llafur medrus. Gallai perthynas adeiladol rhwng y prif ddarparwyr cyfryngau Cymraeg ddatblygu cynnwys Cymraeg a’i gweledd. Gallai hefyd gyflawni gwerth economaidd gwirioneddol yn enwedig mewn meysydd allweddol fel drama a newyddion.

Fodd bynnag, byddem yn annog y pwyllgor ac adolygiad DCMS i fod yn wyliadwrus dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig yn sgîl Siarter newydd y BBC, Bwrdd Unedol newydd y BBC a'r newid yng nghyfrifoldebau rheoleiddio OFCOM. Er mwyn gwneud yn siŵr bod talwyr ffioedd y drwydded yn cael gwerth am arian, yn ogystal â diogelu annibyniaeth S4C fel darlledwr Cymraeg cyhoeddus, bydd angen cadw llygad barcud ar unrhyw drefniadau

newydd sy’n ymwneud â chyflenwad statudol y BBC a’i drefniadau gweithredol gyda S4C.

## 4. Cylch gwaith S4C a’i gweledQedd mewn economi ddigidol

Cwestiwn sy’n cael ei ofyn yn gynyddol ymysg llunwyr polisïau ar draws Ewrop yw sut gall yr egwyddorion sydd wedi’u hymgorffori’n draddodiadol ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gael eu trosglwyddo’n llwyddiannus i'r byd ar-lein. Un o'r atebion mwyaf amlwg yw trawsnewid darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) fel bod sefydliadau’n cael eu hystyried fel darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM).

Felly, hoffem i’r pwyllgor hwn ac adolygiad DCMS addasu cylch gwaith S4C er mwyn iddi allu manteisio’n llawn ar ddarpariaeth aml-lwyfan. Rydym yn cefnogi unrhyw newid mewn polisi a fyddai’n caniatáu i S4C gryfhau ei phresenoldeb digidol cryf a’i galluogi i greu mwy o gynnwys digidol er mwyn eu dosbarthu ar lwyfannau newydd ac i gynulleidfaoedd newydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn apelio at gynulleidfa eang yng Nghymru a thu hwnt. Yn hollbwysig, byddai’n sicrhau ei bod yn gallu denu'r genhedlaeth nesaf o wylwyr S4C. Bydd gwasanaeth ‘Clic’ S4C a'r cynnwys sydd ar wasanaeth iPlayer y BBC yn hanfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod yr iaith i’w gweld a bod cynnwys Cymraeg yn amlwg mewn amgylchedd cyfryngau digidol, er y byddai goblygiadau i hynny, wrth gwrs, o ran cost a refeniw. Byddai defnyddio gwasanaethau fideo ar alw yn fwy rheolaidd yn rhoi mwy o ryddid creadigol (e.e. comisiynu cynnwys ffurf fer yn yr iaith Gymraeg), mwy o gost-effeithlonrwydd, a chael gwell gwerth o gynnwys llinol traddodiadol. I gymuned y siaradwyr Cymraeg, dylai S4C fod yn ddarparwr aml-gyfrwng yn hytrach na gwasanaeth teledu yn unig.

Fodd bynnag, er bod gweledigaeth o'r fath yn ddeniadol, ceir rhwystrau ymarferol. Yn 2015/16, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cyfnewid gwybodaeth rhwng y byd academaidd a’r diwydiant yng Nghaerdydd a Denmarc i drafod yr heriau darlledu mewn cenedl fach.[1] Roedd yr anawsterau a godwyd gan rai o gynrychiolwyr y darlledwyr oedd yno yn ymwneud â gweithgareddau rheoli mynediad rhai gweithgynhyrchwyr caledwedd (ee setiau teledu clyfar) a llwyfannau ar-lein sy’n aml yn gweithredu yn Saesneg yn unig. Dyma fater a godwyd hefyd yn adroddiad y

[1] These events were part of an AHRC funded network project. For more information see: https://smallnationstv.org/

Pwyllgor (CWCL 2016) ac rydym yn cytuno â'r argymhelliad y dylai llywodraeth y DU ac Ofcom ystyried diwygio Côd Darlledu Ofcom yn y maes hwn, ond hoffem hefyd weld y mater hwn yn cael ei gynnwys yn y Mesur Economi Ddigidol.

Rydym hefyd o'r farn y byddai rhannu arfer da a chynnal deialog arbenigol ar draws llunwyr polisïau mewn marchnadoedd ieithoedd lleiafrifol eraill (ee Iwerddon, Denmarc) yn galluogi lobïo mwy effeithiol yn y maes hwn, er budd i S4C yn y tymor hir. Wrth gwrs, nid oes amheuaeth y bydd Brexit yn effeithio ar hyn, ond credwn y byddai llais cryfach ac amlochrog sy'n cwmpasu meysydd polisi a rheoleiddio, yn cael mwy o sylw ac effaith mewn trafodaethau gyda chorfforaethau mawr, byd-eang fel *Google, Samsung* ac *Apple*.

## 5. Cynnal talent o Gymru:

Mae dyfodol S4C yn gwbl ganolog i gynaliadwyedd gweithlu creadigol a chynhenid fel adnodd i Gymru, yn ogystal ag er mwyn hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth Cymru i'r byd.

Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn Addysg Uwch (AU) yn cynyddu. Yn 2014/15 roedd 6,355 o fyfyrwyr mewn sefydliadau AU yng Nghymru yn cael o leiaf rhan o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, cynnydd o 21 y cant ers 2013/14 (Llywodraeth Cymru 2016). Yn yr Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, mae nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer modiwlau iaith Gymraeg wedi cynyddu 100 y cant dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae ein carfan yn cynrychioli trawsdoriad eang o siaradwyr Cymraeg, rhai iaith gyntaf, ac eraill yn ail iaith.

Rydym eisoes wedi ymrwymo'n llwyr i feithrin a llywio talent y dyfodol ac rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod gan Gymru farchnad lafur iach i ddenu a chadw graddedigion disglair. Mae'r cyfryngau Cymraeg yn gyrchfan i lawer o'n graddedigion ac mae S4C yn hanfodol yn hyn o beth, fel cyflogwr uniongyrchol a hefyd trwy gomisiynu cynnwys a gynhyrchir yn annibynnol, yn ogystal â gwasanaethau iaith a chyfathrebu.

Mae staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn elwa'n uniongyrchol o gyfleoedd a geir drwy gydweithio'n rheolaidd â phartneriaethau, cyfnewid gwybodaeth a lleoliadau gwaith gyda S4C a'r cyfryngau ehangach yng Nghymru. Eleni bydd yr Ysgol, yr Eisteddfod Genedlaethol, C4CJ (Canolfan arloesol JOMEC ar

gyfer Newyddiaduraeth Gymunedol) ac S4C yn cydweithio ar brosiect yn yr Eisteddfod Genedlaethol nesaf yn Sir Fôn. Mae 'Llais y Maes' yn wasanaeth newyddion digidol arloesol lle caiff ein myfyrwyr hyfforddiant uniongyrchol mewn sgiliau digidol a newyddiadurol cyfoes. Ar ben hyn, mae cydweithio parhaus rhwng JOMEC ac ITV Cymru yn caniatáu i fyfyrwyr sy'n astudio ein modiwlau 'Ystafell Newyddion' gyhoeddi cynnwys gwreiddiol ar wefan S4C, trwy ei rhaglen materion cyfoes ieuenctid 'Hacio'. Mae'r gweithgareddau hyn yn llwyddiannus ac yn annog pobl ifanc i gyfathrebu'n broffesiynol trwy gyfrwng y Gymraeg, gan ennill hyder a gwella eu sgiliau digidol. Mae hyn hefyd yn cyfrannu at wytnwch a phri'r iaith. Fel y dadleuodd Moring (2013: 35) 'In simple practical terms, media can be seen as one of the many activities that affect our daily language use, informing it, renewing it and reforming it'.

Mae gweithlu ieithyddol amrywiol ac sy'n llythrennog yn ddigidol yn cynnig gwerth gwirioneddol i economi Cymru. Rydym yn credu bod cydweithredu fel yn yr enghraifft a nodwyd uchod yn galluogi sefydliadau megis Prifysgol Caerdydd ac S4C i wella'r economi greadigol yng Nghymru yn uniongyrchol. Rydym yn credu bod gan S4C sydd mewn sefyllfa ariannol a gweithredol i ategu hyfforddiant ffurfiol, rhannu arbenigedd ac adnoddau (e.e. o ran comisiynu digidol a chynhyrchu) ac sy'n ehangu meysydd gwaith proffesiynol creadigol yn Gymraeg, rôl hanfodol yn narpariaeth greadigol a diwylliannol Cymru.

## Casgliad:

I grynhoi, rydym yn credu bod y canlynol yn hollbwysig wrth ystyried dyfodol S4C:

- Cyllid craidd sefydlog sy'n galluogi cynllunio strategol ac uchelgeisiol mewn maes cyfryngau cynyddol gystadleuol.
- S4C annibynnol sy'n dosbarthu adnoddau mewn modd cwbl agored.
- Cydweithrediad parhaus rhwng y BBC ac S4C i roi manteision creadigol a chost-effeithiol.
- Cynnal ystod eang o raglenni o fewn allbwn S4C gyda phwyslais ar gynnwys gwreiddiol.

- Ehangu ei chylch gwaith i alluogi'r gwasanaeth i chwarae rhan fwy canolog yn seilwaith digidol yr iaith Gymraeg.

- Cydweithio agos â darparwyr addysg Gymraeg ac S4C er mwyn gwella'r farchnad lafur greadigol yng Nghymru.

## Cyfeiriadau:


- Culture, Welsh Language and Communications Committee (CWLC) (2017) *The Big Picture: The Committee's Initial View on Broadcasting in Wales*. Available at: www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10916/cr-ld10916-e.pdf

- Centre for Media and Culture in Small Nations (2016) *Television from Small Nations building a network for cultural and commercial success*. Available at: https://smallnationstv.files.wordpress.com/2015/09/television-from-small-nations-report.pdf

- McElroy, R; Blandford, S & Noonan, C (2015) *Television Drama Production in Wales BBC Wales: Roath Lock Studios*. Centre for the Study of Media and Culture in Small Nations. Available at: http://culture.research.southwales.ac.uk/media/files/documents/2015-11-11/Television_Drama_Production_in_Wales.pdf

- McElroy, R. & Noonan, C. (2016) Television Drama Production in Small Nations: mobilities in a changing ecology. *Journal of Popular Television*: special issue, vol. 4, no. 1: pp 109-127.

- Moring, T. (2013) Media Markets and Minority Languages in the Digital Age. *Journal on Ethnopolitics and Minority Issues in Europe*. Vol. 12, no 4; pp: 34-53

- Noonan, C. & Powell, S. (2016) *A Future for Public Service Television: Content and Platforms in a Digital World*. Submission to the Future of TV Inquiry. Available at: http://futureoftv.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/Sian-Powell-and-Caitriona-Noonan.pdf

- Welsh Government (2016) *Statistical Bulletin: Welsh Language in Higher Education Institutions*. Statistics for Wales. 29 Sept: SB43/2016.

## Bywgraffiadau

Sian Morgan Lloyd yw Cyfarwyddwr y Rhaglen ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd. Ar hyn o bryd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sy'n ariannu ei swydd. Am dros ddegawd, bu Sian yn ddirprwy olygydd ac yn ohebydd ar raglen materion cyfoes 'Y Byd ar Bedwar' ac ar gyfer ITV News a rhaglenni ffeithiol.

Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd

Dr Caitriona Noonan is Lecturer in Media and Communication at the School of Journalism, Media and Cultural Studies (JOMEC) at Cardiff University. Before joining academia Caitriona worked as a market adviser in the area of digital and broadcast media for Enterprise Ireland, the trade development agency of the Irish government. Caitriona's research expertise lies in the areas of television production cultures and creative labour. She sits on the steering group of the Centre for the Study of Media and Culture in Small Nations.

School of Journalism, Media & Cultural Studies, Cardiff University

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu / The Culture, Welsh Language and Communications Committee
Dyfodol S4C / The Future of S4C
CWLC(5) FS4C03
Ymateb gan Cymdeithas yr Iaith / Evidence from Cymdeithas yr Iaith

## 1.Cyflwyniad

1.1. Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn fudiad sydd wedi bod yn ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru ers dros hanner canrif.

1.2. Credwn fod presenoldeb y Gymraeg yn y cyfryngau yn hollbwysig i bawb yng Nghymru a bod gan bawb yng Nghymru, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, hawliau i'r Gymraeg. Hynny yw, nid yn unig hawliau i'w defnyddio a'i dysgu, ond hefyd i'w chlywed a'i gweld. Felly, mae presenoldeb yr iaith ar y teledu, y radio, y we a phob cyfrwng arall yn allweddol i'n gweledigaeth ni fel mudiad.

1.3. Mae S4C, yr unig sianel deledu Gymraeg yn y byd, yn unigryw yng ngwledydd Prydain gan iddi gael ei sefydlu a'i diogelu o ganlyniad i ymgyrchoedd torfol gan bobl Cymru. Nid sianel gyffredin mohoni. Mae gan y sianel ran bwysig iawn i'w chwarae yn nhwf yr iaith a'i defnydd.

1.4. Rydym wrthi'n ymgynghori ar bapur trafod gyda'n cynigion ar gyfer datblygu S4C a datganoli grymoedd dros ddarlledu yn eu cyfanrwydd i Gymru. Mae'r papur i'w weld yma:

http://cymdeithas.cymru/dogfen/darlledu-yng-nghymru-ii-papur-trafod

1.5. Mae nifer o aelodau a chefnogwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn gwrthod talu eu trwydded deledu ar hyn o bryd fel rhan o ymgyrch dros ddatganoli darlledu i Gymru.

## 2. Crynodeb

2.1. Crynhown ein prif gynigion a sylwadau fel y ganlyn:

i. Dylid datganoli cyfrifoldeb dros ddarlledu yn ei gyfanrwydd i'r Cynulliad, sef grym rheoleiddio'r holl sbectrwm darlledu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros y ffi drwydded;

ii. Dylid sefydlu fformiwla ariannol statudol ar gyfer ein sianel Gymraeg fydd yn cynyddu yn unol â chwyddiant, gan y byddai hynny'n cynnig sicrwydd ariannol hirdymor i'r darlledwr;

iii. Rydym yn argymell codi ardoll ar gwmnïau darlledu a thelathrebu, a hefyd ar gorfforaethau sy'n gwerthu hysbysebion, megis Google a Facebook, er mwyn cyllido darlledu cyhoeddus yn y Gymraeg;

iv. Dylid newid Awdurdod S4C i fod yn "Awdurdod Darlledu Cymru" a fyddai'n rheoleiddio'r cyfryngau yng Nghymru yn lle Ofcom. Dylai aelodau'r Awdurdod newydd gael eu penodi drwy broses ddemocrataidd yng Nghymru yn hytrach na gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn Llundain.

v. Credwn y dylai fod gan yr Awdurdod Darlledu Cymru newydd (Awdurdod S4C gynt) swyddogaethau a phwerau:

   i. i normaleiddio'r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol, o radio masnachol a theledu lleol i Netflix, YouTube ac yn y blaen;

   ii. i gryfhau'r cyfryngau cymunedol a chynnwys digidol Cymraeg

vi. O gymharu'r cyfryngau yng Nghymru â rhai Catalwnia a Gwlad y Basg, gwelwn ddiffyg twf brawychus y cyfryngau Cymraeg a Chymreig

vii. Credwn, o dan gyfundrefn ddatganoledig, y dylai cylch gwaith Awdurdod Darlledu Cymru gynnwys sefydlu S4C newydd, y gellir ei galw yn ‘Sianel Cymru’. Byddai ganddi gylch gwaith llawer ehangach a fyddai’n cynnwys radio, teledu a gwasanaethau ar-lein. Er mwyn creu gwasanaethau cyfatebol i Wlad y Basg a Chatalwnia, credwn felly y dylai’r S4C newydd, neu Sianel Cymru, fod yn gyfrifol am y canlynol:

   a. tair sianel deledu Gymraeg

   b. tair gorsaf radio Gymraeg

   c. o leiaf ddau wasanaeth newyddion aml-lwyfan Cymraeg a gynhyrchir yn fewnol

   ch. cynnig cefnogaeth i fentrau cyfryngau lleol a chymunedol sy'n cynhyrchu

   cynnwys Cymraeg

## 3.Cwestiynau'r Ymchwiliad

### 3.1. Ariannu'r Sianel

3.1.1. Mae S4C wedi dioddef toriadau o dros 40% i'w chyllid mewn termau real ers 2010; ac mae Llywodraeth San Steffan wedi paratoi'r ffordd i'r BBC draflyncu S4C. Erbyn hyn, er bod maniffesto etholiad cyffredinol y Ceidwadwyr yn 2015 yn dweud y byddent yn "diogelu arian ac annibyniaeth olygyddol S4C", maen nhw nawr yn bygwth toriadau pellach.

3.1.2. Dywedwyd mai'r dirwasgiad a ddechreuodd yn 2008 oedd y rheswm dros doriadau i gyllid y darlledwr. Credwn felly y dylai cyllideb y darlledwr ddychwelyd nawr i'r un lefel â'r hyn oedd cyn y dirwasgiad.

3.1.3. Gwrthwynebwn ariannu S4C drwy'r ffi drwydded a chredwn y dylid dychwelyd i fodel grant. Fodd bynnag, os penderfynir y dylid parhau i ariannu drwy'r ffi drwydded, credwn y dylai rheolaeth dros y ffi drwydded gael ei datganoli i Gymru gyda chyfran uniongyrchol yn mynd at ddarlledwr Cymraeg sy'n annibynnol ar y Llywodraeth a darlledwyr eraill.

3.1.4. Credwn y dylid ail-sefydlu fformiwla gyllido annibynnol ar gyfer y sianel Gymraeg mewn statud, gyda'r cyllid yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Mae angen llawer mwy o sicrwydd ariannol hirdymor ar y Sianel Gymrae na darlledwyr eraill, oherwydd ei statws fel darlledwr mewn iaith leiafrifoledig.

3.1.5. Dylid ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael i'r darlledwr drwy ddilyn esiampl gwledydd eraill  a chodi ardoll ar ddarlledwyr preifat ynghyd â chwmnïau sy'n rhannu cynnwys megis Facebook a Google.

*Ardoll*

3.1.8. Mae darlledwyr cyhoeddus yng ngwledydd Prydain wedi dioddef toriadau mawr yn eu cyllid yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Yn ystod yr un cyfnod, ac er gwaethaf y dirwasgiad, mae darlledwyr preifat, megis British Sky Broadcasting (Sky) ac ITV, wedi gweld cynnydd mawr yn eu helw. Mae llwyfannau ar-lein, megis Google a Facebook, hefyd yn parhau i weld cynnydd mawr yn eu trosiant blynyddol, ac yn defnyddio strwythurau busnes cymhleth er mwyn osgoi talu trethi llawn i'r wladwriaeth. Gallwch weld rhagor o fanylion am ein cynigion yma:

http://cymdeithas.cymru/dogfen/ariannu-darlledu-cymraeg-treth-newydd-i-ariannu-darparydd-amlgyfryngol-cymraeg-newydd

### 3.2. Cylch Gwaith Statudol

3.2.1. Tra bu cynnydd aruthrol yn nifer y llwyfannau Saesneg eu hiaith, ni bu twf cyfatebol yn y gwasanaethau Cymraeg eu hiaith. Wedi sefydlu S4C, roedd un sianel deledu ac un orsaf radio Gymraeg: yng Ngwlad y Basg mae chwe sianel deledu a phum gorsaf radio; ac yng Nghatalwnia mae chwe sianel deledu a phedair gorsaf radio Gatalaneg.

3.2.2. Mae Ofcom wedi methu â gwasanaethu Cymru a’r Gymraeg, ac mae'n parhau i fethu - gan ffafrio cwmnïau mawrion sy'n cwtogi'n ddifrifol ar allbwn Cymraeg a lleol ar radio masnachol a thrwy hynny yn tanseilio gorsafoedd radio cymunedol.

3.2.3. Yn lle Ofcom, credwn y dylid gweddnewid ac ehangu Awdurdod S4C i fod yn ‘Awdurdod Darlledu Cymru’ a fydd yn gyfrifol am reoleiddio darlledu yng Nghymru, yn lle Ofcom. Byddai cylch gwaith, dyletswyddau a grymoedd y corff newydd yn cynnwys hyrwyddo a normaleiddio’r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol (gan gynnwys Netflix ac Amazon Prime er enghraifft), a byddai ganddo rymoedd i osod cwotâu ar radio masnachol a theledu lleol o ran y ganran o’u darlledu sydd yn Gymraeg.

3.2.4. Byddai gan yr Awdurdod ddyletswydd dros hyrwyddo cyfryngau cymunedol, ac yn benodol rhai Cymraeg. Er mwyn sicrhau plwraliaeth ac ystod o leisiau amgen, mae’n bosib y byddai gan yr awdurdod reolaeth dros ‘gronfa cynnwys cymunedol’ a hynny i hyrwyddo cyfryngau a llwyfannau lleol er mwyn creu system ddarlledu o’r gwreiddiau i fyny. Yn ychwanegol at hyn, dylid newid model S4C er mwyn iddi allu cynhyrchu gwasanaeth newyddion ei hun neu gomisiynu cwmni(au) Cymraeg i wneud hynny.

3.2.5. O dan gyfundrefn ddatganoledig, credwn y dylai 'Awdurdod Darlledu Cymru' sefydlu S4C newydd, y gellir ei galw yn ‘Sianel Cymru’. Byddai ganddi gylch gwaith llawer ehangach a fyddai’n cynnwys radio, teledu a gwasanaethau ar-lein. Er mwyn creu gwasanaethau cyfatebol i Wlad y Basg a Chatalwnia, credwn felly y dylai’r S4C newydd, neu Sianel Cymru, fod yn gyfrifol am y canlynol:

- dair sianel deledu Gymraeg

tair gorsaf radio Gymraeg

o leiaf ddau wasanaeth newyddion aml-lwyfan Cymraeg a gynhyrchir yn fewnol

cynnig cefnogaeth i fentrau cyfryngau lleol a chymunedol sy'n cynhyrchu cynnwys Cymraeg

3.2.6. Byddai nifer o’r gwasanaethau hyn yn rhai heb hysbysebion a byddent yn targedu gwahanol grwpiau demograffig a grwpiau diddordeb.

3.2.7. Byddai cylch gorchwyl Awdurdod Darlledu Cymru yn esgor ar dwf o ran cyfryngau cymunedol a chynnwys digidol Cymraeg. Byddai’n diogelu ac yn ehangu radio a theledu cymunedol Cymraeg, gan ffafrio’r darpariaethau hynny yn lle cyfundrefn Ofcom sydd wedi arwain at gwmnïau mawrion yn cwtogi ar gynnwys Cymraeg a Chymreig.

3.2.8. Byddai Awdurdod Darlledu Cymru hefyd yn sefydlu endid darlledu dwyieithog newydd. Byddai’r endid newydd yn gyfrifol am:

un sianel deledu ddwyieithog Gymreig

un orsaf radio ddwyieithog Gymreig

un gwasanaeth dwyieithog ar-lein Cymreig

3.3. Datganoli Darlledu

3.3.1. Mae 60% o bobl Cymru yn cefnogi datganoli darlledu i Gymru, yn ôl arolwg barn a gynhaliwyd gan Gomisiwn Silk a sefydlwyd gan Lywodraeth Prydain. Yn ogystal, cefnogodd Comisiwn Silk ddatganoli rhan o gyllideb S4C i Lywodraeth Cymru, ond dyw Llywodraeth Prydain ddim wedi gweithredu ar yr argymhelliad.

3.3.2. Credwn y dylid datganoli grym dros ddarlledu yn ei gyfanrwydd i Gymru, nid S4C yn unig. Drwy ddatganoli’r cyfrifoldeb i Gymru, byddai modd troi Awdurdod S4C yn “Awdurdod Darlledu Cymru”, sef rheoleiddiwr ar gyfer yr holl sbectrwm, yn naturiol. Byddai’n gyfrifol am ehangu a normaleiddio’r Gymraeg ar bob llwyfan cyfryngol.

3.3.3. O dan gyfundrefn ddatganoledig, credwn y dylai S4C, neu Sianel Cymru, fod yn atebol i Awdurdod Darlledu Cymru.

3.4. Annibyniaeth ar y BBC

3.4.1. Credwn y dylai fod gan S4C annibyniaeth ariannol, strategol a golygyddol lwyr. Pryderwn yn fawr bod y BBC, yn araf deg, yn traflyncu S4C ac yn ei dinistrio fel darlledwr annibynnol. Credwn fod y cynllun i symud darlledu S4C i bencadlys newydd y BBC yng nghanol Caerdydd yn enghraifft o hyn. Ac mae BBC yn cadw'r hawl i dynnu arian oddi ar S4C neu osod amodau ar arian a ddaw i S4C drwy'r ffi drwydded. Nid yw'n bartneriaeth gytbwys, ond yn draflynciad graddol.

3.4.2. Pryderwn ymhellach am y monopoli sydd gan y BBC dros newyddion Cymraeg cenedlaethol. Fel sy'n cael ei amlinellu uchod mae angen rhoi'r hawl i S4C sefydlu gwasanaeth newyddion annibynnol er mwyn sicrhau plwraliaeth.

3.4.3. Er mwyn sicrhau annibyniaeth go iawn, dylid sefydlu fformiwla ariannol statudol a ffynonellau ariannu sy'n gwbl annibynnol ar y BBC. Os oes rhaid ariannu S4C drwy'r ffi drwydded, dylai cyfran fynd yn uniongyrchol i'r darlledwr yn hytrach na gadael i'r BBC gael unrhyw ddylanwad dros ddefnydd yr arian.

Grŵp Digidol, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

## Atodiad

## Cyflwyniad

Cynhelir adolygiad o S4C eleni ac mae'n deg dweud bod hyn yn cynrychioli cyfle prin iawn i edrych yn fanwl ar fanylion y diwydiant darlledu yng Nghymru. Yn ogystal, mae Gweinidog Swyddfa Cymru wedi datgan bod hyn yn gyfle i ystyried datganoli darlledu, gan ddweud bod trafodaeth o'r fath yn 'anochel' wrth gynnal yr adolygiad.

Galwodd llyfryn polisi y Gymdeithas '*Darlledu yng Nghymru'*, a gyhoeddwyd ym 1970, am sefydlu tonfeddi radio Cymraeg a sianel deledu Cymraeg (Atodiad 1), ac mi gymrodd dros ddegawd i gyflawni'r ddau nod. Yn ogystal, bu sefydlu sianel deledu Gymreig a gorsaf radio Gymreig, cyfrwng Saesneg ymysg rhai o'n galwadau yn 1970.

Ond, dechreuodd yr ymgyrchu dros y galwad am 'Awdurdod Darlledu Annibynnol i Gymru' gydag 'awdurdod llwyr dros ddarlledu yng Nghymru'. Gydag adolygiad S4C, credwn fod hi'n amserol ail-ymweld â'r cysyniadau hyn, gan hefyd ystyried pa gamau ychwanegol sydd eu hangen o ystyried y camau mawrion sydd wedi cael eu cymryd o ran technoleg yn ddiweddar.

Nawr bod Senedd ddatganoledig gyda ni yng Nghymru, ceir cyfle i greu cyfraith gwlad gall fod o fudd uniongyrchol i'r Gymraeg, i'r economi ac i ddemocratiaeth.

Mae'r ddadl dros ddatganoli darlledu yn un gref iawn. Mae'r maes wedi ei ddatganoli yng ngwledydd datganoledig eraill; Gwlad y Basg a Chatalonia ymysg eraill. Ac mae'r pwerau wedi cael eu defnyddio er lles eu hieithoedd nhw.

Darganfu pwyllgor trawsbleidiol Comisiwn Silk, a sefydlwyd gan Lywodraeth Prydain ei hunan, bod 60% o bobl Cymru o blaid datganoli darlledu yn ei gyfanrwydd i Gymru. Felly, mae gennym gefnogaeth y cyhoedd. Argymhellodd y Comisiwn ddatganoli i Gymru grant y Llywodraeth ar gyfer S4C yn unig; er i nifer o sefydliadau eraill ofyn iddynt fynd yn bellach. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Prydain wedi gwrthod gweithredu argymhelliad y Comisiwn i ddatganoli i Lywodraeth Cymru'r ychydig filiynau o bunnau'n unig sy'n mynd o drethdalwyr i S4C.

Mae nifer o gyrff eraill a sefydliadau yn y maes yn galw ar i Lywodraeth Prydain fynd yn bellach hefyd, ac yn gweld rhinwedd y ddadl dros ddatganoli darlledu. Dywedodd Yr Athro Elan Closs Stephens, Ymddiriedolwraig y BBC, ar Radio Cymru'n ddiweddar: "*byddwn i'n falch o weld rhagor o atebolrwydd ... dwi o'r farn mai job Cymdeithas yr Iaith .... ydy pwyso, pwyso am rywbeth ... ac wedyn job y gwasanaeth sifil, y Llywodraeth [ac eraill] … yw ceisio'r ffordd orau o wneud hynna ... rwy'n siwr bod yn bosib i wneud rhagor…*"

Mae gennym gyfle drwy'r adolygiad yma i ddechrau cyfnod newydd ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru drwy ddatganoli'r maes i Gymru.

## Darlledu yng Nghymru

Pe bai Cymru'n gorfod sefydlu system darlledu o'r newydd fory, beth fydden ni'n gorfod gwneud? Byddai angen sefydlu cyrff rheoleiddio a thechnolegol, gan gynnwys systemau i reoleiddio cynnwys ac i ddosrannu tonfeddi. Byddai angen strwythurau datblygu, rheoli, cynhyrchu a darlledu teledu Cymraeg, yn ogystal â theledu dwyieithog. Byddai hefyd angen systemau cyfatebol ar gyfer radio Cymraeg a dwyieithog, a hyn oll o fewn gweledigaeth ac egwyddor darlledu gyhoeddus. Byddai angen strwythurau a ffynonellau cyllido wrth gwrs. Byddai angen ystyried adeiladwaith a rhwydwaith darlledu cenedlaethol a lleol, gan gynnwys rôl darlledu fasnachol. Ymhlith pryderon eraill, nid oes digon o ddarlledu yng Nghymru sy'n annibynnol o'r BBC ar hyn o bryd (does dim newyddion teledu amgen yn y Gymraeg, er enghraifft).

Wrth gwrs, gan nad ydym yn sôn am sefydlu system darlledu o'r newydd, mae angen dyfeisio proses esblygol sydd yn trawsnewid y sefyllfa bresennol.

Mae'n bwysig nodi bod gan Ogledd yr Iwerddon eisoes sbectrwm sy'n cael ei rhannu rhwng dwy gyfundrefn - yr un Brydeinig ac un y Weriniaeth; gallai hynny osod cynsail defnyddiol yng nghyd-destun Cymru.

## Cyd-destun rhyngwladol

Dengys Gwlad y Basg a Chatalwnia, ymysg gwledydd eraill, ei fod yn gwbl bosib datganoli darlledu o fewn gwladwriaeth. Rhoddir isod trosolwg o sianeli a gorsafoedd yn y gwledydd hynny, gan gynnwys manylion am iaith, cynnwys a chynulleidfaoedd y gwahanol blatfformau, ynghyd ag arsylwadau ar strwythurau a ffynhonellau cyllid y cyrff sydd yn gyfrifol amdanynt.

### *Euskal Irrati Telebista (EiTB), Gwlad y Basg*

Sefydlwyd *Euskal Irrati Telebista* (EiTB) yng Ngwlad y Basg ym 1982, yr un flwyddyn a lansiwyd S4C yng Nghymru. Bryd hynny, lansiwyd un sianel deledu ac un orsaf radio. Erbyn hyn, mae EiTB yn gyfrifol am:

- 6 sianel deledu (ETB 1, ETB 2, Etb 3, ETB 4, ETB Sat, Canal Vasco)
- 5 orsaf radio (Euskadi Irratia, Radio Euskadi, Euskadi Gazeta, EiTB Irratia, Radio Vitoria)

Yn ogystal â sianeli a gorsafoedd sydd yn targedu cynulleidfaoedd cyffredinol (yn debyg i S4C a Radio Cymru efallai), gwelwn fod gwasanaethau penodol ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd (Atodiad 2). Trwy'r rhain, gwasanaethir tua 700,000 o siaradwyr Basgeg y wladwriaeth a chymunedau ar wasgar yn Ewrop ac America Ladin. Mae platfformau EiTB yn darlledu yn y Fasgeg, y Sbaeneg ac yn ddwyieithog. Daw 86% o gyllid EiTB yn uniongyrchol o lywodraeth Gwlad y Basg, gyda'r gweddill yn cael ei chodi trwy hysbysebion. Mae gwerth nodi hefyd bod cwota 50% ar gyfer allbwn Basgeg ar radio masnachol yn ogystal.

## Corporació Catalana de Mitjans Audiovisuals (CCRTV), Catalwnia

Yn dilyn deddfwriaeth gan lywodraeth Catalwnia, sefydlwyd Corporació Catalana de Mitjans Audiovisuals (CCRTV) ym 1983. Fe'i lansiwyd gydag un sianel deledu ac un orsaf radio. Heddiw, mae'r gorfforaeth yn gyfrifol am:

- 6 sianel deledu (TV3, El33, TV3CAT, 3/24, Super3, Esport3)
- 4 gorsaf radio (Catalunya Ràdio, Catalunya Música, Catalunya Informació, iCat FM)

Prif iaith pob un ohonynt yw'r Gatalaneg. Yn debyg i EiTB, ceir sianel a gorsaf radio yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc (Atodiad 3). Noder iCat FM yn benodol, sef gwasanaeth amlblatfform sy'n gwneud defnydd helaeth o'r rhyngrwyd a thechnoleg newydd. Er bod CCRTV yn gwasanaethu cynulleidfa gymharol fwy na'r rheini yng Ngwlad y Basg ac yng Nghymru (gyda thua 4 miliwn o siaradwyr brodorol Catalaneg), mae yna elfennau strwythurol i'w system darlledu datganoledig sydd yn haeddu ystyriaeth.

- Funding: It is important to ensure continued levels of funding to S4C so that it can continue to commission content and support the creative and wider economy in Wales.

- Remit: Pact underlines the continued importance of S4C's role as a publisher-broadcaster with 100% of programmes commissioned from external suppliers. An equally important part of this is independent producers being able to own and exploit these rights at home and overseas to allow them to maximise revenues, reinvest in content and build sustainable businesses.

- Driving international revenues: S4C should commission as far as possible in a way that helps drive exports and international revenues in Wales through programmes that are attractive to both audiences in Wales and globally.

- Governance: whatever form of governance structures the Government Review decides on, the key principles of fairness, accountability and transparency should be met.

### 1. What sufficient funding for the channel looks like? For example, who should provide it, and how should it be calculated – should it be linked to a formula? How should this be supplemented with revenue raised by S4C?

1.1. Pact supports the maintenance of current levels of funding for S4C into the future. S4C is an important part of the broadcasting ecology in Wales and should be guaranteed a certain level of investment for its longer term sustainability.

1.2. Analysis carried out by Arad Research in 2014/15 concluded that for every £1 invested by S4C in the economies of Wales and the UK created a total value of £2.09. According to the study, S4C's investment of £83m generated a total economic impact of £170m across the UK. Pact underlines that investment in S4C offers a good return to the economy and to Welsh speakers who make up around 20% of the population in Wales.

1.3. Pact is aware that the BBC Trust agreed in September 2016 for S4C's funding to be fixed at its current level of £74.5m until the end of the current licence fee agreement in 2022. There is a case for extending the terms of this agreement to the end of the current BBC Charter period in 2028. This funding is in addition to the statutory 10 hours per week of programming currently provided by BBC Cymru to S4C.

1.4. Over recent years, S4C has felt the impact of budget cuts in a similar way to the BBC. Overall spend on programming for S4C was £91.5m in 2012/13. BBC contributed £76m to the funding of S4C in 2013/14 falling year on year to £74.5m in 2016/17. DCMS also continues to provide funding of £6.7m to S4C but this has not been confirmed beyond 2016/17.

1.5. The remaining 2% of funding comes from S4C's advertising revenue and commercial activities; Pact believes there is a case to make S4C even more open to international sales in the future which we will expand on, in response to question 2.

1.6. We recognise that S4C has faced a real terms cut of 36% in funding since 2010[3] compared with BBC Cymru Wales has dealt with a real terms cut of 16% of funding spread over five years. In light of recent announcements signalling an extra £8.5m per year by 2019/20 to BBC Wales, an additional £30m for a new channel in Scotland and £1.2 additional spend for MG Alba we believe there is a case for the Government Review of S4C to consider adequate funding for S4C in the future including for digital and multiplatform projects.

1.7. Pact is clear on the fact that maintaining both investment in Welsh and English language programming in Wales is crucial for the full diversity of audiences in Wales being represented on screen. We will continue to emphasize the importance and success of the S4C publisher-broadcaster model in commissioning from external suppliers and the important role of independent production companies in continuing to provide deficit financing.

---

[3] Institute of Welsh Affairs, Wales Media Audit, December 2015

## 2. What S4C's statutory remit should be. Is its current remit fit for a contemporary broadcaster, and if not, how should it change? How should it reflect the digital role of a modern broadcaster?

2.1. S4C has broadly fulfilled its public service remit over the last few years and delivered on '*the provisions in the Communications Act 2003 "providing television programme services of high quality with a view to their being available for reception wholly or mainly by members of the public in Wales.*"

2.2. Pact strongly advocates the continuation of S4C's status as a publisher-broadcaster commissioning 100% of programmes from external suppliers. As has been demonstrated, this successful model of rights exploitation has brought clear benefits to S4C, viewers, production companies and the wider economy in Wales. Pact strongly refutes the claims that Ian Jones, Chief Executive at S4C made during his evidence session to the Committee in the Welsh Assembly on 2 March, suggesting that where Indie suppliers do not use their rights, that they should be given back to S4C.

2.3. Pact has consistently demonstrated and most recently in its defence of the Terms of Trade framework over the last year, that this regime of producers owning and exploiting their own rights is highly effective. The UK Government confirmed in 2016 that the Terms of Trade regime continues 'to be effective and play a key role in supporting a diverse and vibrant production sector'.

2.4. Pact supports S4C's call to update its remit to ensure that changes in technology and digital capabilities are factored in to make sure that it can reach the full breadth of its audience, including younger viewers, through the range of ways in which they consume content. We also recognise that S4C continues to be an important buyer in the children's content production space and welcome any steps that would support investment into a range of different types of content in the future.

2.5. Amendments to the remit should also take into account the fact that 40% of S4C viewers access the content from outside Wales and the geographical location of the audience should be factored into the remit also. Pact recognises the positive work that S4C has done in the digital space, publishing a digital strategy setting out how it links with online platforms, despite the restrictions imposed by its statutory remit.

2.6. S4C remains a significant intervention in Wales. Pact has argued the case before that S4C could do even more to encourage companies in Wales to internationalise by commissioning content of interest to both audiences in Wales and other territories and engaging in international coproduction. This will help drive further revenues for S4C and continue to create a sustainable production centre in Wales. Pact encourages S4C to develop an export led strategy for S4C to encourage Welsh Indies to make programmes that will sell well internationally.

## 3. What governance and accountability structures S4C should have in place. For example, should responsibility for S4C be devolved to Wales?

3.1. Pact tends not to get involved in commenting on the detail of governance and accountability structures for S4C which are matters for the Government Review on the topic. S4C should however maintain its independence as a broadcaster from both BBC and government and be transparent in its governance and accountability. Fairness, transparency and accountability should be the core principles of any governance structure.

3.2. The Government Review should consider whether the S4C Authority model is still fit for purpose or whether the creation of a unitary board similar to the BBC's new governance structures would be appropriate. There would need to be consideration how S4C remained independent of the BBC and for example whether or not the non-Exec Director for Wales on the BBC unitary board has any access to S4C Authority meetings in the future. S4C and BBC will need to work together on new partnership working arrangements in light of the new BBC governance structure, with communication and oversight by Ofcom.

3.3. In line with the BBC, Pact supports the move for S4C to make its annual report and accounts available to the National Assembly of Wales to ensure accountability and be available to take part in inquiry sessions by Welsh Assembly Committees as required. It is important that it also retains its independence from political structures including the devolved assembly in Wales.

3.4. Pact is not in favour of devolution of oversight of S4C to the Welsh Government. If DCMS is still providing funding then it would seem appropriate for them to retain oversight of the performance of the channel.

## 4. What S4C's relationship with the BBC should look like

As previously suggested, under new governance arrangements, BBC and S4C will need to consider how their partnership working arrangements will be configured in light of the new BBC governance framework.

4.1. The BBC currently supplies 10 hours a week of programming to S4C in addition to the funding from the licence fee; this largely constitutes news and current affairs but also sport and Pobol Y Cwm. Pact understands that Pobol Y Cwm will initially be made by BBC Studios, the new BBC production arm in Wales and then go out to tender at a later date. Pact welcomes early information as to when this programme will be put out to open competition to the wider production sector.

4.2. Pact understands that S4C will sit across two main sites in Caernarfon and in Cardiff city centre when the new BBC building opens in 2019. The BBC is planning this to be an open building and will trial access passes for Indies which we think will be a positive catalyst for innovation within the independent production sector. This will give Indies fair access to both BBC and S4C commissioners alongside BBC Studios.

4.3. S4C and BBC should continue to coproduce dramas like Hinterland and other genres that have the potential to sell well internationally. This is a model that should be replicated as far as possible to encourage the growth of international sales and sustainable businesses in Wales. As previously explained, Pact is wary of S4C moves to take a stake in rights that have previously sat with producers and been effectively exploited.

## 5. The visibility of S4C: covering issues such as S4C's prominence on the electronic programme guide and smart TVs.

5.1. On the whole, we believe that the existing regime works well. Any potential change to the PSB compact would need to be considered as a whole, looking at all of the PSB benefits and the associated obligations which each channel holds as part of its Ofcom PSB licence. We have not had access to sufficient evidence so as to enable us to quantify whether updating the existing regime to reflect technical innovations would have an impact on their ability or desire to invest in content and services in the longer term, this includes any moves to raise the visibility of S4C via EPGs and smart TVs.

## Cyflwyniad

1. Rondo Media yw un o'r prif gwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd, Caernarfon a Phorthaethwy. Mae'r cwmni yn cynhyrchu cynnwys drama, chwaraeon, cerddoriaeth, digwyddiadau, ffeithiol ac adloniant. Mae gan Rondo adnoddau ôl-gynhyrchu yng Nghaernarfon a chanolfan ôl-gynhyrchu yng Nghaerdydd sy'n ehangu ar hyn o bryd i gartrefu cyfres 40 awr ar gyfer amserlen 'daytime' Channel 4. Mae gan Rondo ddwy stiwdio yng Nghaernarfon, ar gyfer ein harlwy chwaraeon (*Sgorio* a *Clwb*) a hefyd ar gyfer rhaglenni ffeithiol ac adloniant. Mae'r gyfres ddrama *Rownd a Rownd,* a ddarlledir S4C ddwywaith yr wythnos, yn cael ei chynhyrchu yn ein canolfan ym Mhorthaethwy.

2. Mewn partneriaeth â Disney, cynhyrchwyd *Frozen at Christmas* gan ein is-gwmni, Yeti Media, sy'n canolbwyntio ar ennill comisiynau rhwydwaith y tu allan i Gymru, yn ogystal â'r cyd-gynhyrchiad *Find it, Fix it, Flog it* sy'n cael ei ddarlledu yn ystod y dydd. Mae arlwy pêl-droed Rondo wedi cynnwys gemau rhyngwladol Cymru, Uwch Gynghrair Cymru, Cwpan yr FA a gemau Tlws yr FA yn ogystal â gemau rhagbrofol Ewropeaidd Abertawe.

3. Mae cynyrchiadau Rondo wedi ennill nifer o wobrau rhyngwladol, gan gynnwys gwobrau Broadcast a'r Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) am y ddrama *The Indian Doctor* ar BBC One. Yn 2016, enillodd Rondo wobr Bafta Cymru am y Rhaglen Adloniant orau (*Les Misérables: The Journey)* a'r Darllediad Allanol Gorau (*Côr Cymru)*. Cynhyrchodd Rondo y darllediad o waith comisiwn Karl Jenkins ar gyfer S4C i nodi hanner can mlynedd trychineb Aberfan. Darlledwyd *Cantata Memoria* ar S4C, BBC Cymru, BBC Four, BBC Radio Wales a Classic FM. Yng ngwobrau Rhaglenni Dogfen Annibynnol Rhyngwladol Hollywood 2017, enillodd y rhaglen ddogfen am Philip Jones Griffiths, y ffotograffydd rhyfel yn Fietnam, a gyd-gynhyrchwyd gan JTV yn Ne Corea.

4. Mae Rondo yn aelod o Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC), y sefydliad masnach ar gyfer y sector cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Mae Rondo hefyd yn aelod o PACT.

## Beth yw cyllid digonol ar gyfer y sianel? Er enghraifft, pwy ddylai ei ddarparu, a sut dylid ei gyfrifo – a ddylai fod yn gysylltiedig â fformwla? Sut dylai hyn gael ei ategu gan gyllid sy'n cael ei godi gan S4C?

5. Mae cyllid S4C, fel y nodir gan y Pwyllgor yn ei adroddiad diweddar 'Y Darlun Mawr', wedi gweldnewidiadau dramatig, gan ddechrau gyda'r penderfyniad yn 2010 y byddai'r rhan fwyaf o'i chyllid yn dod o Ffi'r Drwydded Deledu, gyda'r gweddill yn dod drwy grant y DCMS yn ogystal â refeniw masnachol S4C (sef tua 2% o'i holl incwm). Ers 2010, cafwyd toriadau pellach, o ganlyniad i ostyngiadau yn incwm Ffi'r Drwydded Deledu, a hefyd toriadau pellach yn sgil gostyngiadau yng nghyllid y DCMS ar ôl adolygiadau gwariant y Llywodraeth. Mae Rondo yn cytuno gyda datganiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: 'Rydym yn poeni'n fawr am yr effaith ddifrifol y mae'r toriadau parhaus i gyllideb S4C ers 2010 wedi'i chael'[1]. Mae sicrhau cyllid cynaliadwy hir-dymor yn hanfodol i ddyfodol S4C a'i gallu i ddatblygu ymhellach ac i fod yn gydnaws â chwaeth a disgwyliadau'r gynulleidfa. Bydd unrhyw doriadau pellach yn gwneud y gwasanaeth presennol yn anghynaliadwy ac yn cyfyngu'n sylweddol ar uchelgais y sianel i ehangu'r ddarpariaeth.

6. Wrth geisio bod mor effeithlon â phosibl, mae angen i'r sector annibynnol allu cynllunio ymlaen llaw ac ennill comisiynau ar gyllidebau sy'n caniatáu S4C i ddarlledu amrywiaeth o gynnwys o ansawdd uchel, yn enwedig yn ystod amserlen yr oriau brig, sy'n hynod o gystadleuol. Mae'r cyllidebau hyn yn fwyfwy heriol gyda chost fesul awr S4C yn £10,802 ar gyfartaledd, a'r amserlen bresennol yn cynnwys 57% o raglenni sydd wedi'u hail-ddarlledu. Mae ein sector wedi gweithio'n galed ac yn effeithlon i leihau costau, ond mae pen draw i ba mor bell y gellir lleihau cyllidebau. Nododd Ofcom yn ei adolygiad diwethaf ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y DU: 'mae galw am staff cynhyrchu a chostau stiwdio bellach yn cynyddu, ac mae arbedion – o

[1] Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Chwefror 2017, t22

ran cynhyrchu'r un rhaglen gyda chriwiau llai a llai o ddiwrnodau ffilmio - wedi'u cyflawni i raddau helaeth.2

7. Mae'r her yn arbennig o wir wrth gynhyrchu'r genre fwyaf costus - drama. Cost fesul awr dramâu S4C yn 2015/16 oedd £150,300 o'i gymharu â £188,600 yn 2011. Mae disgwyliadau'r gynulleidfa o ran drama yn aruthrol, a gall cyfres unigol ar Netflix ddenu'r un gyllideb â chyfanswm gwariant blynyddol S4C ar gynnwys.

8. O ystyried eu cyllidebau isel, ni all dramâu Cymraeg fanteisio ar y credydau treth teledu ym mhen ucha'r farchnad. Mae cynnydd mewn cynyrchiadau drama rhwydwaith mawr a dramâu rhyngwladol yn cael effaith economaidd sylweddol yng Nghymru, ond mae'n dueddol o wyrdroi'r farchnad rhywfaint a chynyddu cyfraddau staff llawrydd.

9. Mae'n hanfodol bod S4C yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd ar draws bob llwyfan. Mae hynny'n arbennig o bwysig o ran gwylwyr iau sy'n troi at gynnwys ar ddyfeisiau eraill yn amlach na pheidio. Mae cwmnïau yng Nghymru mewn sefyllfa i helpu S4C ddod yn fwy gweledol ar draws mwy o lwyfannau. Er enghraifft, mae Galactig3, is-gwmni digidol Rondo, eisoes wedi cynhyrchu nifer o brosiectau digidol addysgol a darlledu.

10. Croesawodd Rondo y penderfyniad i ail-agor gallu S4C i ddarlledu mewn HD mewn pryd i weld tîm pêl-droed Cymru yn chwarae cystal ym Mhencampwriaethau Ewrop. Byddai'n gam yn ôl i S4C symud unwaith eto oddi wrth ddarlledu mewn HD oherwydd cyfyngiadau ariannol.

11. O ran beth ddylai cyllid cynaliadwy fod, rydym yn teimlo bod modd gweithio gyda model cyllido Ffi'r Drwydded Deledu, ar yr amod bod y cyllid yn cael ei wahanu'n gyfan gwbl oddi wrth y BBC a bod annibyniaeth weithredol a golygyddol S4C yn parhau.

12. Rydym yn nodi llythyr Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC Rona Fairhead at Gadeirydd Awdurdod S4C Huw Jones ar 7fed Medi 2016, sy'n cynnig swm sefydlog o gyllid ar gyfer cyfnod cytundeb ffi'r drwydded tan 2021/22:

---

[2] Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn Oes y Rhyngrwyd: 3ydd Adolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Ofcom, Gorffennaf 2015, t9 para 3.15

[3] www.galactig.com

'Rwy'n ystyried mai dyma'r peth iawn i'w wneud i gydnabod y rôl bwysig sydd gan S4C ym mywyd siaradwyr Cymraeg sy'n talu ffi'r drwydded, ac fel sylfaen gadarn i Awdurdod S4C a Bwrdd newydd y BBC gydweithio yn unol â hi, a chynnal y berthynas hynod gadarnhaol y mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi'i mwynhau gyda chi a'ch cydweithwyr."

13. Croesawyd hyn yn amlwg, fodd bynnag, byddem yn dadlau y dylid ehangu hynny i gyd-fynd â chyfnod presennol y siartr, sy'n para tan ddiwedd 2027. Mae'r £74.5m o gyllid blynyddol cynaliadwy yn hanfodol i sefydlogrwydd ariannol S4C.

14. O ran cyfraniad Llywodraeth y DU o'r DCMS, mae angen ail-archwilio hynny yng ngoleuni buddsoddiadau eraill y Llywodraeth yn y diwydiannau creadigol. Mae'r Llywodraeth wedi creu sawl toriad treth ar gyfer sectorau fel gemau, theatr byw, a hefyd ar gyfer dramâu ac animeiddio ym mhen ucha'r farchnad. Serch hynny, mae angen nodi, oherwydd bod cyllidebau S4C yn llawer is, nid yw mewn sefyllfa i fanteisio ar gredyd treth pen ucha'r farchnad yn yr un ffordd â rhai o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill y DU.

15. Mae'n gwneud synnwyr yn economaidd i fuddsoddi mewn darlledwyr cyhoeddus, sydd yn eu tro, yn buddsoddi yn economi greadigol y DU. Mae rôl S4C fel sbardun economaidd yn cael ei ddangos gan y ffaith ei bod yn creu £2.09 am bob £1 mae'n ei gwario[4]. Yn llythrennol, gall Llywodraeth y DU ddyblu gwerth ei arian pe byddai'n buddsoddi mwy yn S4C.

16. Rydym felly o'r farn y dylai Llywodraeth y DU gymryd y cam positif o gynyddu cyllid S4C. Rydym yn cefnogi cynnig TAC am un cynnydd o 10% yng nghyfanswm lefel incwm cyhoeddus S4C, y mae'n rhaid ei gysylltu â chwyddiant, ar y cyd ag arian S4C o Ffi'r Drwydded Deledu. Rydym hefyd yn cefnogi awgrym TAC y dylai'r rhan o Ffi'r Drwydded Deledu sy'n mynd i S4C gael ei ddiogelu, fel na all gael ei effeithio gan unrhyw rwymedigaethau pellach sy'n wynebu'r BBC. Mae parhau i dderbyn cyllid o sawl ffynhonnell yn hanfodol i S4C - i fod yn sail i annibyniaeth y sianel ac iddi beidio â bod yn gwbl ddibynnol ar un ffynhonnell o gyllid drwy Ffi'r Drwydded Deledu.

---

[4] Adroddiad Blynyddol 2015-16. S4C, 2016, t6

17. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgynghori ar gronfa gystadlu beilot ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hyn roi hwb i genres sy'n cael eu tangynrychioli ac o fudd i S4C o ran rhaglenni cerddoriaeth/ celfyddydau/ plant. Gallai rhywfaint o'r arian hwnnw gael ei ddiogelu ar gyfer cynyrchiadau Cymraeg a chynnwys o'r Cenhedloedd. Serch hynny, ni ddylai hyn gymryd lle'r angen am lefel o gyllid cyhoeddus sy'n uwch ac yn fwy diogel ar gyfer S4C.

18. Yn yr un modd, er ein bod yn croesawu'r cynnydd diweddar yng nghyllidebau'r BBC ar gyfer rhaglenni Saesneg yng Nghymru – cynnydd yr oedd mawr ei angen – (£8.5m y flwyddyn o gyllid newydd erbyn 2019/20), ni ddylid edrych ar hynny fel rhywbeth sy'n gwneud iawn am unrhyw ostyngiad yng nghyllid S4C.

19. Mae angen cyllid ychwanegol ar S4C i'w pharatoi ar gyfer y genhedlaeth Netflix ac Amazon Prime. Mae angen yr adnoddau arni i greu argraff ddigonol ar y llwyfannau hyn ac i wneud camau go iawn i gomisiynu cynnwys newydd ar gyfer llwyfannau aflinol (non-linear) y tu hwnt i'w gwasanaeth craidd.

## Beth ddylai cylch gorchwyl statudol S4C fod? A yw ei chylch gorchwyl presennol yn addas ar gyfer darlledwr cyfoes, ac os nad yw, sut ddylai newid? Sut ddylai adlewyrchu rôl ddigidol darlledwr modern?

20. Mae Rondo yn cynhyrchu cynnwys Cymraeg mewn sawl genre, ac o'r farn eu bod yn fathau dilys o raglenni ar gyfer S4C. Gydag un sianel deledu Gymraeg yn unig, mae'n hanfodol bod cynulleidfaoedd yn gallu cael amrywiaeth eang o ddeunydd yn yr iaith honno. Yn y broses o ail-archwilio cylch gorchwyl S4C, byddem yn bendant o'r farn y dylai barhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys.

21. Mae'r cylch gorchwyl presennol (fel y diffinnir yn adran 204 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003) yn rhy gyfyng a hen ffasiwn. Nid yw'n ystyried nac yn adlewyrchu'n gywir y tirlun cyfryngol sy'n newid mor gyflym a'r ffordd y mae cynulleidfaoedd yn troi at gynnwys. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd nodedig yn nifer y gwylwyr ar draws y DU yn ogystal â chynnwys sy'n cael ei wylio ar-lein. Mae angen ehangu brand S4C i lwyfannau eraill a dylai fod yn gallu comisiynu cynnwys digidol aflinol (non-

linear) y tu hwnt i brif sianel draddodiadol S4C. (O gymharu, mae gan Channel 4 15 is-frand a gwasanaethau cysylltiedig).

22. Wrth i gwmnïau cynhyrchu eraill amlygu eu hunain ym marchnad y DU, gyda BBC Studios ymhlith y mwyaf amlwg, hoffem weld ymrwymiad cliriach yng nghylch gorchwyl S4C i'r berthynas gyflenwi gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae hyn yn bwysig er mwyn i S4C barhau i gynnig amrywiaeth greadigol a thwf economaidd i bob rhan o Gymru.

23. Dylai cylch gorchwyl S4C ei gwneud yn glir, tu hwnt i'r 10 awr statudol a ddarperir yn wythnosol gan BBC Cymru, y dylai ei holl gynnwys gael ei gomisiynu o'r sector annibynnol, ac y dylid cadw'r model cyhoeddwr-darlledwr presennol.  Mae S4C wedi bod yn sbardun allweddol ar gyfer twf y sector annibynnol yng Nghymru ers sefydlu'r sianel yn 1982.  Hoffem weld ymrwymiad cliriach i'r berthynas gyflenwi hon gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gall rôl S4C fel sbardun i'r sector ledled Cymru barhau i ddod ag amrywiaeth greadigol a thwf economaidd i bob rhan o'r wlad.

24. Er enghraifft, dathlodd cyfres ddrama Rondo Rownd a Rownd ei phen-blwydd yn un ar hugain yn ystod 2016. Wedi'i chynhyrchu ym Mhorthaethwy, mae wedi dod â chyfleoedd gwaith sylweddol i'r rhanbarth, ac yn parhau i feithrin talent actio, ysgrifennu a thechnegol newydd. Mae cael cynhyrchiad rheolaidd wedi ein galluogi i fuddsoddi a thyfu fel cwmni cynhyrchu – o ran staff a buddsoddiadau allweddol mewn datblygu a thechnoleg. Mae'r gyfres yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi leol ac wedi helpu i ddatblygu'r diwydiannau creadigol yng Ngogledd Cymru, gan ddatblygu talent greadigol, technegol a gweinyddol.

25. Mae'r berthynas gyda'r gynulleidfa yn ganolog i gylch gorchwyl S4C. Mae adroddiad blynyddol diweddaraf S4C yn nodi y cafwyd 629,000 o wylwyr ledled y DU mewn wythnos arferol – y nifer uchaf ers 9 mlynedd – ac mae hynny'n ystadegyn calonogol.

26. Mae cyfyngiadau wrth ddibynnu ar un set o ffigyrau gwylio (sy'n cael eu cyflenwi gan BARB ar hyn o bryd) – oherwydd maint bach y sampl, anghysondeb mewn patrymau gwylio a diffyg sesiynau mesur gwylwyr ar wasanaethau gwylio eto ac ar-lein.

27. Yn ogystal, mae gan S4C swyddogaeth darlledwr gwasanaeth cyhoeddus – nid lleiaf yn achos S4C i wasanaethu cynulleidfa iaith leiafrifol a darlledu cynnwys a genres sydd ddim mor amlwg ar sianeli masnachol eraill – er enghraifft rhaglenni plant, celfyddydau a cherddoriaeth.

## Pa strwythurau llywodraethiant ac atebolrwydd dylai S4C eu cael? Er enghraifft, a ddylai'r cyfrifoldeb am S4C gael ei ddatganoli i Gymru?

28. O'n profiad ni o Awdurdod S4C, gyda rhywfaint o fân newidiadau, gall barhau i gael trosolwg defnyddiol o S4C, gydag Ofcom hefyd o bosib yn cael rôl gyffredinol mewn meysydd fel telerau masnachu, safonau cynnwys ac ati.

29. O ran datganoli'r cyfrifoldeb am S4C i Gymru, nid yw darlledu'n faes sydd wedi'i ddatganoli. Mae prif ffrwd ariannu S4C bellach yn dod o ffi'r drwydded y DU. Mae datganoli un darlledwr yn rhannol yng Nghymru yn annhebygol o fod yn effeithiol. Mae'r BBC yn cryfhau ei gwariant yng Nghymru, ond byddai gadael i'r BBC gael monopoli ar ddarparu cynnwys ar gyfer y Cenhedloedd yn annoeth. Mae Rondo, er enghraifft, hefyd yn croesawu ymrwymiad cynyddol Channel 4 i gomisiynu cynnwys o'r Cenhedloedd. O ran lluosogrwydd yng Nghymru, mae'n hanfodol bod S4C ac ITV Cymru hefyd yn parhau i gomisiynu a darlledu cynnwys Cymreig.

30. Yn sicr, dylai Llywodraeth Cymru gynnal perthynas gref gyda S4C, ac y dylai'r darlledwr gael elfen o atebolrwydd i Lywodraeth Cymru: bod Cadeirydd S4C a'r Prif Weithredwr yn ymddangos gerbron y pwyllgorau perthnasol, bod adroddiad blynyddol S4C yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac i'r Llywodraeth honno gael rôl wrth benodi swyddogion anweithredol ac aelodau'r Awdurdod.

31. Drwy gronfa gyd-gynhyrchu newydd posib, gallai Llywodraeth Cymru hefyd alluogi mwy o gynyrchiadau rhyngwladol a denu buddsoddiad i Gymru o ystod ehangach o ddarlledwyr a chwmnïau rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cefnogi busnesau rhyngwladol mawr fel Pinewood Studios ac wedi darparu buddsoddiad ar gyfer cwmnïau cynhyrchu newydd fel Bad Wolf. Gallai Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â S4C, sefydlu menter ryngwladol newydd i hyrwyddo ac annog cwmnïau cynhyrchu i edrych y tu hwnt i Gymru am gyllido a dosbarthu cynnwys.

## Sut berthynas ddylai S4C ei chael gyda'r BBC?

32. Rydym yn cydnabod ac yn cefnogi'r bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC sydd wedi arwain at arbedion mewn costau trosglwyddo yn ogystal â S4C yn elwa o fod ar yr iPlayer. O ran y Cytundeb Gweithredol rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac S4C, mae wedi'i weithredu a'i reoli'n effeithiol gan fwyaf. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod y cytundeb hwn ond yn ddilys rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2017 ac fel mae'r Pwyllgor yn gwybod, mae camau yn cael eu cymryd i gael cytundeb rhwng S4C a'r BBC i sicrhau bod arian Ffi'r Drwydded Deledu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaeth penodol, fel y nodwyd.

33. Gyda pherthynas hyd braich Ymddiriedolaeth y BBC yn dod i ben, mae angen eglurder ynglŷn â sut bydd y cytundeb gweithredol newydd rhwng y ddau ddarlledwr yn gweithio. Nid ydym yn gyfforddus bod gan Weithrediaeth y BBC na'r Bwrdd Unedol newydd unrhyw bŵer a dylanwad dros S4C. Byddai'n well gennym pe byddai gwahanu clir o arian Ffi'r Drwydded Deledu sy'n mynd i S4C oddi wrth y BBC.

34. Ar wahân i'r materion ynglyn â rheoli'r broses gyllido, byddai Rondo yn cytuno â'r Pwyllgor bod y berthynas BBC-S4C yn gryfach oherwydd bod 'cydberthynas gydweithredol sydd o fudd i'r ddwy ochr, yn greadigol ac o ran defnyddio adnoddau'[5]. Mae partneriaeth ehangach S4C gyda'r BBC wedi arbed rhywfaint o gostau a gallu S4C i fod ar yr iPlayer, sy'n hynod o boblogaidd. Gyda chynnydd yn nifer y bobl sy'n gwylio ar lwyfan ar-lein S4C, ac eraill yn gwylio ar lwyfannau fel YouTube a mannau eraill, mae gwylio ar-lein wedi cynyddu'n ddramatig yn ystod y 18 mis diwethaf, gan alluogi'r rheini tu allan i Gymru, yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg, i droi at gynnwys S4C.

35. Mae BBC Studios – endid masnachol newydd y BBC – yn rhoi rhywfaint o sialens yn y cyd-destun hwn. Mae Ymddiriedolaeth y BBC bellach wedi cymeradwyo'r endid yn ffurfiol. Mae'r opera sebon ddyddiol Pobol y Cwm eisoes wedi trosglwyddo i BBC Studios. Yn ôl y bwriad, bydd holl raglenni'r BBC (ar wahân i newyddion a materion cyfoes sy'n gysylltiedig â newyddion) ar agor i gystadleuaeth yn ystod yr 11 mlynedd nesaf. Byddai hyn, trwy

---

[5] Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Chwefror 2017, t25

oblygiad, yn cynnwys y gyfres ddrama Pobol y Cwm. Ond mae'r gyfres hon hefyd yn rhan sylweddol o'r oriau statudol presennol sy'n cael eu darparu gan BBC Cymru i S4C. Mae angen mwy o eglurder i sefydlu'r ddarpariaeth statudol gyfredol gan BBC Cymru ar gyfer S4C, a lle bydd Pobol y Cwm a chynnwys eraill y tu allan i newyddion yn perthyn.

36. Wrth gyhoeddi'r bwriad i benodi comisiynydd drama newydd ar gyfer BBC Cymru, dylid cael mwy o gyfleoedd i archwilio cynyrchiadau cefn-wrth-gefn - ond nid ar draul neu drwy beryglu cyllideb S4C drwy sybsideiddio cynyrchiadau drama Saesneg.

## Amlygrwydd S4C: ymdrin â materion fel amlygrwydd S4C ar y canllaw rhaglenni electronig (EPG) a setiau teledu clyfar.

37. Mewn byd lle mae mwy a mwy o sianeli teledu, dylai'r sianeli hynny yr ystyrir eu bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn achos S4C, sydd o fudd i iaith a diwylliant lleiafrifol, gael amlygrwydd dyledus ar yr EPG a thu hwnt. Mae Rondo yn cytuno'n llwyr ag argymhelliad adroddiad diweddar y Pwyllgor 'Y Darlun Mawr' i ofyn i Lywodraeth y DU ac Ofcom i sicrhau mwy o amlygrwydd.

38. Rydym hefyd yn gweld parhad S4C fel sianel deledu ddaearol yn bwysig dros ben. Mae cryfhau mynediad i gynulleidfaoedd ar lwyfannau eraill yn bwysig, ond y gwir amdani yw bod gwylio'r teledu yn fyw dal yn parhau'n gryf, ac mae presenoldeb S4C fan hyn yn hanfodol. Mae hynny'n wir oherwydd bod demograffig gwylwyr S4C yn cynnwys pobl hŷn sydd, yn anghymesur, yn fwy tebygol o wylio teledu byw, yn ogystal â'r rheini mewn ardaloedd lle nad oes cymaint o ddewisiadau eraill oherwydd problemau dosbarthu band eang.

RONDO MEDIA  MAWRTH 2017

## Cyflwyniad

1. Mae Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) yn cynrychioli cwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol yng Nghymru. Ceir oddeutu 60 o gwmnïau yn y sector, sy'n amrywio o rai bach i rai o gwmnïau mwyaf blaenllaw'r diwydiant yn y DU. Maent yn cynhyrchu rhaglenni teledu a chynnwys digidol i rwydweithiau'r darlledwyr cyhoeddus yn y DU gan mwyaf – y BBC, Channel 4, ITV a Channel 5 – yn ogystal â deunydd i sianeli cebl a lloeren a chydgynyrchiadau rhyngwladol. Maent hefyd yn cynhyrchu mwyafrif helaeth rhaglenni gwreiddiol S4C, ynghyd ag amrywiaeth o gynyrchiadau i BBC Radio Cymru a Radio Wales.

2. Mae TAC yn croesawu penderfyniad Pwyllgor DIGC i gynnal archwiliad i S4C. Mae hon yn flwyddyn hynod bwysig wrth i ni baratoi at yr Adolygiad Annibynnol o S4C, a bydd gwaith y Pwyllgor yn gwneud cyfraniad pwysig at y broses honno.

## Lefel ariannu priodol ar gyfer y sianel. Er enghraifft, pwy ddylai ei ddarparu a sut dylid ei gyfrifo? A ddylai fod yn seiliedig ar fformiwla? Sut dylid cynyddu'r ariannu drwy refeniw a godir gan S4C?

3. Sefydlu strwythur sefydlog, tymor hir ar gyfer lefel ariannu gynaliadwy yw'r mater pwysicaf i'w drafod yn achos S4C. Mi fydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod fformiwla ariannu S4C wedi cael ei newid sawl gwaith dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn sgil Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn 2010, ac o ganlyniad, mae cyllideb S4C wedi crebachu'n sylweddol.

4. Roedd penderfyniad Adolygiad Gwariant 2010 i ostwng lefel ariannu S4C mewn gwrthgyferbyniad amlwg â chanfyddiadau ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn yr adroddiad, sy'n dyddio o fis Ionawr 2009, dywedwyd:

> ‘Dylid cynnal lefel ariannu cyfredol y llywodraeth ar gyfer darlledwyr cyhoeddus eraill (S4C a BBC Alba) yn y cenhedloedd datganoledig, i sicrhau eu bod yn parhau i gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus.’[1]
>
> ‘Dylid gosod lefelau ariannu uniongyrchol gan y llywodraeth ar seiliau diogel, a dylai’r ffigwr fod yn ddigon uchel i ysgafnhau’r baich ar y cwmnïau i gasglu cyllid a chynnig anogaeth.’[2]

5. Roedd llythyr y Llywodraeth at yr Arglwydd Hall yn 2015 parthed talu am drwyddedau teledu yn rhad ac am ddim i bobl dros 75 oed o goffrau ffi’r drwydded deledu yn datgan: ‘Gellid lleihau canran swm y grant ariannu a roddir gan y BBC i S4C gan ganran sy’n cyfateb i’r gostyngiad a wneir i ariannu’r BBC yn ystod y cyfnod 2018/19–2020/21. Penderfyniad y Llywodraeth fydd sut i ddigolledu’r diffyg.’[3]

6. Mae’n bwysig ystyried y pwyntiau uchod wrth i ni edrych ymlaen. Yn sgil y gydnabyddiaeth fod diffyg i’w ddigolledu, a bod gofyn i’r Llywodraeth fynd i’r afael ag e, roedd yn fwy fyth o siom pan benderfynodd y Llywodraeth gwtogi lefel ariannu S4C gan DCMS yn fuan wedi hyn. Ni chafodd y toriadau eu rhewi nes i TAC ac eraill alw am wrthdroi’r polisi.

7. Mi liniarwyd effeithiau toriadau 2010 i raddau gan ddau ffactor. Yn gyntaf, mi aeth tîm rheoli S4C i’r afael â’r gorchwyl o ostwng lefelau gwariant gweinyddol, a defnyddio’r bartneriaeth â’r BBC i wneud arbedion megis costau darlledu. Yn ail, mi weithiodd y sector gynhyrchu annibynnol yn galed iawn i arbed costau. Ond fel y dywedodd Ofcom yn ei adolygiad diweddaraf o ddarlledu cyhoeddus yn y DU: ‘mae’r galw am staff cynhyrchu a chostau stiwdio yn cynyddu erbyn hyn, ac mae’r arbedion a wneir drwy gynhyrchu rhaglenni â chriwiau llai a nifer is o ddiwrnodau ffilmio wedi cael eu cyflawni i’r graddau eithaf posib, yn ymarferol.’[4]

---

[1] Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Gwylwyr yn Gyntaf. Ofcom, Ionawr 2009, t.11, para 1.87
[2] Ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus: Gwylwyr yn Gyntaf. Ofcom, Ionawr 2009, t.51, para 5.47
[3] Llythyr am drefniadau gostyngiad pris y drwydded deledu i bobl dros 75 oed o 2017/18 ymlaen. Trysorlys EM a DCMS at yr Arglwydd Hall, 3 Gorffennaf 2015
[4] Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn Oes y Rhyngrwyd: Trydydd Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Ofcom, Gorffennaf 2015, t.9 para 3.15

8. Hyd yn oed petai lefel gyfredol cyllideb S4C yn gysylltiedig â chwyddiant, ni fyddai hyn yn ddigon i leddfu'r effaith tymor hir ar gynulleidfaoedd o ailddarlledu i'r fath raddau. Mae angen i S4C ddilyn esiampl darlledwyr eraill a buddsoddi yn ei phresenoldeb ar gynifer o lwyfannau â phosibl. Mae gwylio ar-lein S4C, yn enwedig ar iPlayer, wedi cynyddu'n sylweddol o 5.7m yn 2014-15 i 8.4m yn 2015-16[5], ac yn dangos bod gwylwyr ledled y DU yn mwynhau gwylio S4C.

9. Mae'r ariannu cyhoeddus uniongyrchol a roddir i S4C, ac eithrio'r ffi drwydded, yn bwysig, fel y nodwyd yn adolygiad diweddar yr Arglwydd Puttnam o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus: 'rhaid ategu ymrwymiad y llywodraeth i raglenni iaith gan ariannu sefydlog, tymor hir. Gan fod [S4C] yn diwallu dibenion treftadaeth genedlaethol, amrywiaeth diwylliannol ac addysg, rydyn ni'n teimlo y dylid ei hariannu – yn rhannnol, o leiaf – gan arian a ddiogelwyd, naill ai gan y llywodraeth ganolog neu gan ffynhonnell arall, ac ni ddylid gadael iddi geisio goroesi ar ba symiau bynnag y gall y BBC eu darparu o'i gyllidebau (sy'n dirywio).'[6]

10. Ni ddylid ystyried buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol fel cost i drethdalwyr. Mae ymchwil yn dangos bod S4C yn mwy na dyblu gwerth ei harian drwy fuddsoddi yn yr economi greadigol leol[7]. Yn amlwg, bydd buddsoddiad ychwanegol yn arwain at fuddion economaidd ychwanegol.

11. Mae'r pwyllgor yn gofyn a oes angen sefydlu fformiwla? Yn sicr, mae angen gosod seiliau strwythur sefydlog tymor hir ar gyfer ariannu cynaliadwy, er mwyn i S4C fedru buddsoddi mewn rhaglenni teledu o safon a chynnwys digidol sy'n berthnasol ac yn ddeniadol i'w chynulleidfa, gan gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dylai'r fformiwla ymgorffori ymrwymiad gan ddau brif ariannwr cyfredol S4C – ffi'r drwydded deledu a DCMS – ynghyd ag ymrwymiad di-alw'n-ôl y dylai ariannu o'r fath gydredeg ag adolygiad o strwythur ffi'r drwydded deledu, yn ogystal â pharhau i ganiatáu i S4C greu incwm masnachol ar ei gwedd bresennol.

---

[5] Adroddiad Blynyddol 2015-16. S4C, 2016, t.4

[6] A Future for Public Service Television. Goldsmiths College/University of London, Mehefin 2016, t.126

[7] Adroddiad Blynyddol 2015-16. S4C, 2016, t.4

12. Mae lefel ariannu S4C wedi disgyn i bwynt y mae TAC yn ystyried nad yw'n cydymffurfio â'r gofyniad statudol o 'ariannu digonol'. Dylai fod cynnydd diymdroi o 10% i lefel ariannu cyhoeddus S4C (h.y. 10% o gyfanswm cyfraniadau DCMS a ffi'r drwydded deledu, sef oddeutu £8.3m), a dylid cysylltu'r gyllideb â chwyddiant er mwyn iddi aros gyfuwch â'r gyfradd honno.

13. Bydd cynnal cyfuniad o ffynonellau ariannu'n amlygu annibyniaeth S4C ac yn helpu i'w harbed rhag cael ei dylanwadu'n ormodol gan un ffynhonnell ariannu yn unig. Roedd trosglwyddo mwyafrif cyllideb S4C i gronfa ffi'r drwydded deledu yn cyfateb i doriad o 96% mewn gwariant cyhoeddus, canran uwch o lawer na'r rhan fwyaf o'r toriadau eraill a welwyd yng nghynllun cynildeb y Llywodraeth. Buasai cynyddu grant DCMS i £15m yn dal i fod yn arbediad sylweddol ar wariant DCMS ar S4C cyn 2010 pan oedd dros £100m.

14. Ar ben hynny, buasem yn dadlau nad yw'n rhesymegol bellach i'r BBC reoli a phenderfynu ar gynnwys y 10 awr statudol o raglenni newyddion ac eraill a ddarlledir ar S4C. Mae TAC wedi cael ar ddeall mai oddeutu £20m y flwyddyn yw costau cynhyrchu'r 10 awr ar hyn o bryd, â newyddon yn costio tua £6m o'r cyfanswm. Hoffai TAC weld y £14m sy'n weddill gael ei drosglwyddo i gyllideb S4C er mwyn iddi gael rheolaeth lwyr dros y cynnwys a'r cynhyrchu.

15. Ar fater arall, nid yw rhai o ostyngiadau treth mwyaf buddiol y Llywodraeth i'r diwydiannau creadigol wedi bod mor fuddiol i S4C ag i ddarlledwyr cyhoeddus eraill. Oherwydd cyllidebau drama is S4C, nid yw ei chynyrchiadau'n gymwys ar gyfer y credyd treth uchaf, a hoffai TAC weld trothwy is ar gyfer cynyrchiadau ieithoedd lleiafrifol cynhenid y DU.

## Diffinio cyfrifoldebau statudol S4C. Ydy ei chyfrifoldebau cyfredol yn briodol i ddarlledwr cyfoes, ac os na, sut dylent newid? Sut dylai'r sianel gyflawni swyddogaeth ddigidol darlledwr cyfoes?

16. Fel rhan o ddyletswyddau statudol S4C, mae gofyn iddi 'ddarparu ystod eang o raglenni amrywiol o safon uchel', a'r rhan fwyaf ohonynt yn Gymraeg.[8] Mae diffiniad ehangach yn cynyddu rhyddid S4C i godi refeniw ychwanegol mewn

[8] Deddf Cyfathrebiadau 2003. Llywodraeth EM, 2003, adran 204 (2)

rhai meysydd, er enghraifft, drama o safon megis ‘Y Gwyll / Hinterland’, a bydd hyn o fudd masnachol.

17. Mi ddylai fod yn rhan o swyddogaeth S4C hefyd i bortreadu Cymru, ei diwylliant a’i phobl i weddill y DU a’r tu hwnt. Mae hyn yn llawer mwy ymarferol ar lwyfannau newydd, fel yn achos llwyddiant S4C ar iPlayer, yn ogystal â YouTube, Facebook a Twitter. Dylai bwriad S4C i fod yn weladwy ar y llwyfannau hyn gael ei amlygu yn ei datganiad o fwriad.

18. Yn adroddiad S4C, Dyfodol Teledu Cymraeg, nodwyd y dylai ‘cael effaith ar y diwydiannau creadigol, ac economïau a chymunedau lleol ledled Cymru a chefnogi twf yn yr iaith Gymraeg‘[9] fod yn un o brif amcanion S4C o 2017 ymlaen. Yn unol â hyn, dylai fod pwyslais amlycach ar gydweithio ag amrywiaeth o gwmnïau annibynnol. Mae swyddogaeth S4C wrth roddi comisiynau cyntaf a darparu cyflenwad cyson o waith yn darparu sicrwydd ariannol mwy sefydlog i sector greadigol teledu. Gall cynhyrchwyr sefydlu cofnod o’u gwaith ag S4C er mwyn ennill comisiwn gan ddarlledwyr eraill ledled y DU. Mae hyn yn caniatáu i aelodau TAC ddatblygu hyfforddiant a sgiliau a gwneud buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a chyfarpar, yn ogystal ag archwilio marchnadoedd newydd a denu buddsoddiad am i mewn.

## Strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd y dylid eu sefydlu gan S4C. Er enghraifft, a ddylai cyfrifoldeb dros S4C gael ei ddatganoli i Gymru?

19. Mae TAC yn cefnogi parhad Awdurdod S4C ar yr amod y gellir profi nad yw’n ymwneud yn ormodol â materion bob dydd, a’i fod yn canolbwyntio ar ddarparu trosolwg craidd o’r gwasanaeth. Gall Awdurdod S4C reoleiddio S4C ar y cyd ag Ofcom, gan sicrhau bod y ffi drwydded yn cael ei gwario’n effeithlon gan S4C heb unrhyw fewnbwn gan y BBC. Efallai mai’r Awdurdod ddylai ‘reoleiddio’ S4C, felly.

20. Mi ddylai fod cyfle o fewn y weithdrefn reoleiddio i gynrychiolwyr swyddogol y sector annibynnol leisio adborth ar newidiadau i strategaeth gomisiynu cyn iddynt gael eu cadarnhau’n derfynol, er mwyn osgoi unrhyw bolisïau a allai niweidio’r sector, er yn anfwriadol.

21. Rydyn ni’n deall bod DCMS, y BBC ac S4C wrthi’n trafod trefniant ‘ôl-Ymddiriedolaeth y BBC’, a ddisgrifiwyd fel isod gan Ian Jones, Prif Weithredwr

[9] Dyfodol Teledu Cymraeg. S4C, 2014, t.32

S4C, i Bwyllgor DIGC y llynedd: “Mi fydd y berthynas yn un fwy cytundebol ei hanfod … yr awgrym yw y bydd S4C yn gorfod cyfiawnhau’r gwariant a geir gan y BBC, a chyfrif am y ffaith fod yr arian wedi’i wario yn unol â’r diben gwreiddiol.”[10]

22. Mae hyn yn destun pryder, oherwydd er bod Ymddiriedolaeth y BBC yn gorff ‘hyd braich’ o leiaf, mi fuasai’r ‘cytundeb’ newydd yn cael ei sefydlu rhwng Awdurdod S4C a Bwrdd y BBC ei hun. Gallai’r sefyllfa hon esgor ar wrthdaro sylweddol mewn buddiannau. Nid yw’n briodol fod bwrdd rheoleiddio un darlledwr yn medru dylanwadu ar weithdrefnau darlledwr arall.

23. Er mwyn diogelu annibyniaeth S4C, dylai’r gyfran o ffi’r drwydded deledu sy’n mynd at S4C fod yn gyfan gwbl ar wahân, ac ni ddylid ei arolygu mewn unrhyw ffordd gan y BBC. Buasai TAC yn dymuno gweld y gyllideb berthnasol o gronfa ffi’r drwydded yn cael ei throsglwyddo’n uniongyrchol i Awdurdod S4C (neu’r ‘Rheoleiddiwr’), sef y corff y mae’r Llywodraeth yn ymddiried ynddo i sicrhau bod S4C yn gwario’r arian yn y ffordd briodol. Yn ogystal, dylai incwm S4C o ffi’r drwydded deledu gael ei ddiogelu a’i warchod rhag ymrwymiadau ychwanegol a ddaw i ran y BBC, megis yn achos diweddar gorfod derbyn mai nhw fyddai’n talu costau darparu trwyddedau teledu yn rhad ac am ddim i bobl dros 75 oed.

24. Mae TAC yn argymell gofal yn achos datganoli S4C i Gymru. Yn rhinwedd ei statws fel ased diwylliannol, gwerthfawr, dylai’r iaith Gymraeg gael ei chefnogi gan Lywodraeth y DU. O gydweithio â holl ddarlledwyr cyhoeddus y DU, mae aelodau TAC yn medru tystio i bwysigrwydd S4C o fewn cyd-destun ehangach y sector.

25. Mi fuasai’n anffodus petai S4C yn cael ei gyrru i’r cyrion ac yn troi’n wasanaeth ymylol nad sydd i’w gweld yn bwysig y tu hwnt i Gymru, oherwydd y gwir amdani yw bod dylanwad ei rhaglenni’n ehangach na hynny, ac felly hefyd y sector gynhyrchu greadigol mae’n cydweithio â hi. Nid yw ariannu S4C yn fater y dylid ei ystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â blaenoriaethu gwariant ar yr economi, iechyd, addysg, yr amgylchfyd a materion datganoledig eraill.

---

[10] Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Diwylliant, yr iaith Gymraeg a Chyfathrebu, Chwefror 2017, t.23 (63)

## Beth fyddai hanfod perthynas S4C a'r BBC?

26. Nid oes amheuaeth fod buddiannau'n deillio o'r bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC, megis rhannu gwasanaethau darlledu. Mae comisiynu ar y cyd neu rannu costau mewn rhaglenni gwerth uchel megis drama, digwyddiadau a hawliau diwylliannol a chwaraeon, yn fuddiol i'r darlledwyr a'r cynhyrchwyr sy'n derbyn y comisiwn. Mae TAC yn sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'r Telerau Masnach yn unol â'r Ddeddf Cyfathrebiadau pan mae'n trafod comisiynau o'r fath â'r sector annibynnol.

27. Yn sgil newidiadau i Siarter y BBC, sy'n golygu cynyddu nifer y rhaglenni sy'n agored i gystadleuaeth, gall cydweithio â mwy o gynhyrchwyr y sector annibynnol yng Nghymru wella amrywiaeth llais y BBC, yn ogystal â chyflenwi'r gofyniad sydd yn y Siarter i'r BBC gydweithio â'r economi greadigol.[11]

28. Fel y nodwyd eisoes, fodd bynnag, ni ddylai'r berthynas rhwng S4C a'r BBC ymwneud o gwbl â'r gyfran o ffi'r drwydded deledu mae S4C yn ei derbyn fel taliad rhannol o ariannu gwasanaeth S4C.

## Amlygrwydd S4C: materion megis tynnu sylw at S4C ar y teclyn rhaglenni electronig (EPG) a setiau teledu clyfar.

29. Mae amlygrwydd yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus di-dâl ar yr EPG a setiau teledu clyfar yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae pob darlledwr cyhoeddus yn ymelwa o gefnogaeth gyhoeddus mewn rhyw ffordd, boed hynny ar ffurf gofod ar y sbectrwm neu arian cyhoeddus. Oherwydd hyn, dylai fod yn hawdd i'r cyhoedd ddod o hyd iddynt. Mae ymchwil wedi dangos bod cysylltiad uniongyrchol rhwng lleoliad sianel ar yr EPG ac arferion gwylio'r sianeli dan sylw. Gan na all S4C wario ar farchnata ar yr un raddfa â rhai o'r darlledwyr eraill, mae'n hanfodol iddi gael ei hamlygu mewn ffyrdd eraill.

30. Rydyn ni'n cyd-weld ag argymhelliad diweddar y Pwyllgor y dylai 'Llywodraeth y DU ac Ofcom ystyried diwygio Cod Ymarfer Ofcom i ddarparwyr EPG mewn modd sy'n sicrhau bod S4C yn derbyn gwell

[11] Mae'r disgrifiad o bedwerydd diben cyhoeddus y BBC yn ei siarter newydd yn cynnwys y datganiad hwn: 'Drwy gomisiynu a chyflenwi allbwn y dylai'r BBC fuddsoddi yn economi greadigol pob un o'r cenhedloedd a chyfrannu at eu datblygiad.' Cyf: BBC Royal Charter. HM Government, Rhagfyr 2016, t.5

amlygrwydd yng Nghymru ar Declynnau Rhaglenni Trydanol a setiau teledu clyfar.'[12]

31. Mae darpariaeth gwasanaeth Virgin Media yng Nghymru'n destun pryder penodol. Mae BBC1 Wales ar sianel 101, BBC2 Wales ar sianel 102, ITV Cymru Wales ar sianel 103 a Channel 4 ar sianel 104. Mae S4C wedi ei hynysu'n llwyr ar sianel 166, ac mae'n gwbl anweledig i bobl sy'n sboncio drwy sianeli'r darlledwyr cyhoeddus. O ystyried twf sylweddol ac arferion marchnata ymosodol Virgin Media mewn cartrefi cebl, mae TAC yn galw ar y Pwyllgor i annog Ofcom i ymdrin â'r mater hwn ar frys.

32. Er bod ffigyrau gwylio ar-lein yn cynyddu, mae'n hanfodol i S4C gynnal ei phresenoldeb ar rwydwaith daearol, di-dâl. Fel y dywedodd Ian Jones wrth y Pwyllgor Materion Cymreig: "petai S4C yn troi at ddarlledu'n gyfan gwbl ar-lein heddiw, mi fuasem yn colli 60% i 65% o'n cynulleidfa ar unwaith."[13] Mae gwylio teledu traddodiadol yn dal i fod yn gyffredin, â 91% o boblogaeth y DU yn gwylio teledu byw bob wythnos.[14] Mae demograffig siaradwyr Cymraeg yn cynnwys nifer helaeth o bobl hŷn nad yw'n arfer ganddynt wylio'r teledu ar-lein. Mae hyn mewn gwrthgyferbyniad llwyr â sianel megis BBC3, pan ellid dadlau bod ei chynulleidfa iau yn un fwy naturiol i'w throsglwyddo i gynulleidfa ar-lein yn unig.

[12] Y Darlun Mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru. Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Pwyllgor Diwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chyfathrebu, Chwefror 2017, t.25

[13] Tystiolaeth lafar: Darlledu yng Nghymru, cyfarfod dilynol: ariannu S4C – 30 Ion 2017. Pwyllgor Materion Cymreig, HC 981, cyhoeddwyd Chwefror 2017, t.8, C19

[14] Adroddiadau'r Farchnad Gyfathrebu 2016. Ofcom, Awst 2016, t.16

Gwybodaeth cefndir – Mae Huw Marshall yn ymgynghorydd cyfryngol a strategydd digidol, mae ganddo bron i 30 mlynedd o brofiad yn y gofod cyfryngol yng Nghymru a'r DU. Rhwng Tachwedd 2012 a Medi 2016 bu'n gyfrifol am arwain gweithgaredd digidol S4C yn creu a gweithredu strategaeth ddigidol cyntaf y sianel. Gellir darllen mwy am ei waith presennol ac erthyglau sydd â pherthnasedd i'r ymgynghoriad hwn wrth ymweld a www.marshall.cymru

Cyd-destun – Y dirwedd ddarlledu

1 Yn ôl yn 1982 pan lansiwyd S4C roedd creu sianel deledu oedd yn cynnig arlwy Cymraeg yn yr oriau brig yn neud synnwyr, roedd y gynulleidfa yn fodlon ar dderbyn cynnwys o safon o fewn sianel dwy ieithog gan ei fod yn cynnwys rhaglenni gan Channel 4 oedd ddim ar gael i wylwyr yng Nghymru.

2 Y pryd hynny dim ond 4 sianel oedd yn bodoli ag oedd perchnogaeth o VCR's yn isel, dim ond 10% o gartrefi oedd a mynediad i un. Gwylio byw yn y cartref oedd yr unig ddewis.

3 Heddiw 35 mlynedd yn ddiweddarach mae'r dirwedd darlledu yng Nghymru wedi newid tu hwnt i bob disgwyl. Mae yna gannoedd o sianeli ar gael i wylio ac mae gwasanaethau cymharol newydd fel Netflix, Amazon a YouTube yn golygu fod oriau di rif o gynnwys ar gael i wylio ar amryw o blatfformau. Heddiw mae dros 8 biliwn o weldiadau o gynnwys fideo yn digwydd yn ddyddiol ar Facebook. Mae rhwydweithiau cymdeithasol yn prysur ddatblygu'n llwyfannau darlledu. Rhwng Awst 2016 a Rhagfyr 2016 fe welodd S4C cynnydd o dros 300% i dros 2,200,000 o weldiadau fideo o'i chynnwys mewn mis ar-lein, y mwyafrif ar Facebook.

4 O ystyried dyfodol S4C ac wrth ymateb i'r 5 maes a nodwyd yn benodol yn yr ymgynghoriad hwn mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod y newid yn y dirwedd darlledu ond yn bwysicach dau newid sylweddol yma yng Nghymru, yn gyntaf y newid yn arferion gwylio, derbyn a rhannu cynnwys y gynulleidfa. Ag yn ail y newid yn nemograffeg Cymry heddiw, eu hoedrannau a lleoliadau daearyddol.


5 Cyn mynd ati i gynnig ymatebion mae angen ystyried pwy yw cynulleidfa S4C heddiw? Pa fath o gynnwys maent yn dymuno gwylio ag yn lle maent yn dymuno ei wylio.

6 Mae'n rhaid gofyn y cwestiwn sylfaenol a'i model "sianel deledu" yw'r ffordd orau ymlaen i S4C ac os taw na yw'r ateb, yn rhannol neu yn ei chyfanrwydd, beth ddylid datblygu yn ei le? Mae ymchwil a data yn amlygu fod arferion "Millennials", sef trwch siaradwyr Cymraeg heddiw, yn symud i ffwrdd o ddarlledu traddodiadol at lwyfannau a chynnwys newydd.

7 Dwi'n siŵr fydd digonedd o ymatebion sy'n edrych ar ddatrysiad i'r 5 pwynt trafod megis, cyllido, cylch gwaith, llywodraethant, y perthynas a'r BBC a Gwelededd S4C ar EPG's ar sail y fodel bresennol o sianel deledu sy'n gweithredu ar ymylon y byd digidol.

8 Hoffwn felly ymateb drwy gynnig alternatif, un sy'n ymateb i'r 5 pwynt.

9 Dyfodol "Darlledu"




10 Mae'r data yma gan Nielsen yn dangos y newid yn arferion ymysg cynulleidfaoedd yn yr UDA. Noder y gostyngiad ymysg yr ifanc. Mae'r un peth yn digwydd yma yng Nghymru.

11 Mae 54.6% o siaradwyr Cymraeg (yn ôl cyfrifiad 2011 yn "Millennials", ac mae'n debyg, chwe blynedd yn ddiweddarach fod y canran yma'n uwch erbyn hyn). O ystyried fod mwyafrif o wylio unionlin S4C yn cael ei wneud gan bobol 65+ sef 16.1% o siaradwyr Cymraeg mae yna ofyn amlwg i chwilio am ddatrysiad newydd i ddarlledu a dosbarthu cynnwys yng Nghymru.

12 Y grediniaeth oedd bod yr ifanc yn dychwelyd at deledu unionlin wrth iddynt aeddfedu, mae'n ymddangos taw nid hyn fydd y patrwm yn y dyfodol.

13 Ariannu digonol.

14 Mae S4C ar hyn o bryd yn derbyn cyllideb o £84 miliwn, mae tua 81% o'r cyllid hyn, £68.5 miliwn, yn mynd ar gynnwys. Mae modd yna dosrannu'r gwariant cynnwys i dair elfen graidd:

15 Talent – Staff cynhyrchu a thechnegol, actorion, cyflwynwyr, perfformwyr, awduron, cerddorion ayb,

16 Adnoddau – Costau technegol, stiwdios, offer camera, sain a golygu ayb

17 Gweinyddu – Staff gweinyddol, costau cynhaliaeth ac yswiriant.

18 Dan y model presennol mae'r cyfrifoldeb tros wariant y tair elfen uchod yn cael ei phasio gan S4C i'r cwmnïau cynhyrchu. Gyda staff materion busnes y sianel yn goruchwylio'r gwariant.

19 Mae swmp arall o wariant S4C, 14% sef oddeutu £12miliwn yn mynd ar ddosbarthu'r cynnwys a'r holl waith perthnasol sydd ynghlwm a hyn.

20 Mae'r gweddill, 4% sef tua £3.5miliwn, yn mynd ar weinyddiaeth, staff comisiynu a'r adrannau materion busnes sydd ynghlwm, cyfreithiol, cyllid yn ogystal â'r adrannau dadansoddi, marchnata a chorfforaethol.

21 Yw'r gyllideb bresennol yn ddigonol? Ydi'r £84miliwn yn cynnig gwerth am arian? Buasai cyllidebau o £40miliwn, £80miliwn neu £120 o filiynau, sef be fyddai cyllideb S4C heddiw mewn termau real cyn y toriadau o 40% dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnig tri gwasanaeth gydag opsiynau tra gwahanol.

22 Felly beth am ystyried y genres. Ar hyn o bryd mae gwariant blynyddol S4C ar gynnwys fel y canlyn

23 Drama £17.4miliwn (gan gynnwys taliadau i'r BBC am benodau ychwanegol o Bobol y Cwm) – Ffeithiol a materion cyfoes £16.5miliwn – Adloniant, cerddoriaeth a chelfyddydau £13miliwn – Chwaraeon £9.7miliwn – Plant £6.7miliwn.

24 Mae bron i £4miliwn yn cael ei wario ar bryniannau ac ail ddarllediadau.

25 Oes un genre yn bwysicach na'r llall? A fydda'i Chymry ar eu colled heb chwaraeon gyda sylwebaeth yn y Gymraeg? A yw hi'n neud synnwyr i wario bron i £10miliwn yn fwy ar ddrama nag yr ydym ar raglenni i blant a phobol ifanc sef cynulleidfa'r dyfodol?

26 Rhaid gofyn y cwestiwn sylfaenol, pa fath o wasanaeth sydd ei angen ar gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith? Pa fath o wasanaeth sy'n berthnasol o 2020 ymlaen? Sut gall darpariaeth cynnwys yn y Gymraeg helpu at gyrraedd nod llywodraeth Cymru o gyrraedd 1,000,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

27 Yn ôl yn 1982 darparu un sianel oedd yn cynnig arlwy i bawb o blant oedran meithrin i neiniau a theidiau, teuluoedd a phobol yn eu harddegau, dysgwyr a'r di Gymraeg oedd y model cywir. Dyma oedd yr un arlwy a gynigwyd gan BBC1 ag ITV yr adeg honno. Erbyn heddiw mae'r BBC wedi esblygu i gynnig naw sianel gyda rhan helaeth o'i hen gatalog ar gael i wylio trwy sianeli fel Dave, Gold ac Alibi ar UKTV, mae gan ITV saith sianel erbyn hyn, gan gynnwys cartrefi penodol i'w ail ddarllediadau. Mae gan y BBC ag ITV tair sianel i blant rhyngddynt. Mae gan y ddau trwy'r BBC iPlayer a ITV hub llwyfannau digidol ar gyfer dosbarthu eu cynnwys ar amryw o blatfformau a dyfeisiadau. Mwy am hynny yn y man.

28 Dyw un sianel deledu i wasanaethu pawb ddim yn briodol bellach. Mae angen gwasanaeth sy'n galluogi'r gynulleidfa i fedru darganfod cynnwys sy'n apelio, mae angen darparu swmp o gynnwys safonol, mae angen darparu pyrth cynnwys perthnasol. Mae angen cynnig cynnwys yn y Gymraeg tu hwnt i'r gofod darlledu draddodiadol, cynnwys sydd wedi ei greu yn bwrpasol ar gyfer llwyfannau newydd, cyfeirio rwyf at y rhwydweithiau cymdeithasol yn bennaf.

29 Modelau cynhyrchu a dosbarthu newydd – Gwneud llai yn well.

30 Bues yn ddigon ffodus i ymweld â EITB darlledwr cyhoeddus gwlad y Basg yn Bilbao yn 2015. Mae eu model cynhyrchu yn berthnasol iawn i ni yma yng Nghymru. Maent yn darparu cynnwys teledu a radio yn Sbaeneg a Basgeg o'r un adeilad yng nghalon Bilbao, mae'r staff yn gweithio ar draws y ddwy iaith a disgyblaeth, mae EITB yn berchen ar ag yn darparu adnoddau i'r sector gynhyrchu trwy eu stiwdios yn yr adeilad sy'n golygu bod costau'r adnoddau ddim yn cael eu rhannu a'r cwmnïau cynhyrchu.

31 Mae'r model cynhyrchu hefyd yn arwain at bwyslais gwahanol o gynhyrchu, mae cryn dipyn o raglenni trafodaeth lle gall y gynulleidfa ymwneud a'r cynnwys a'r pynciau, darlledu gwasanaeth cyhoeddus go iawn. Mae'r newid pwyslais hyn yn golygu costau cynhyrchu'r awr isel. Ond maent yn gwario arian sylweddol ar uchelfannau yn eu hamserlen, rhaglenni adloniant tebyg i I'm a Celebrity, operau sebon a chwaraeon o wlad y Basg.

32 Erbyn heddiw mae costau adnoddau ac offer darlledu wedi cyrraedd pwynt lle gall y dyn neu ddynes ar y stryd bod mewn sefyllfa i feddu ar offer oedd angen morgais i brynu deng mlynedd yn ôl.

33 Gall cydweithio agosach rhwng radio, theledu a'r sector ddigidol yn y Gymraeg cynnig cyfleoedd i ddatblygu cynnwys newydd, perthnasol a chyffrous a chynnig arbedion ariannol sylweddol.

34 Problem sylfaenol bresennol S4C, a'r hyn sy'n achosi problemau o safbwynt maint eu cyllid, yw'r amserlen unionlin a'r angen i'w lenwi, oddeutu 16/17 awr y dydd, 365 dydd y flwyddyn. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at y broblem o ail ddarllediadau, 57% o'r amserlen ar hyn o bryd, rwyf hefyd wedi cyfeirio at y ffaith bod BBC ag ITV gyda gofodau ychwanegol ar gyfer ail ddangos cynnwys tu hwnt i'r prif sianeli a'r amserlen bresennol. Mae datblygiad iPlayer y BBC a'r llwyfannau cynnwys ychwanegol gan "sianeli" eraill yn golygu fod y gwylio eto o gynnwys yn arferiad naturiol i gynulleidfaoedd heddiw. Dyw S4C hyd yma ddim wedi bod yn fodlon buddsoddi arian digonol ar greu llwyfan dosbarthu eu hunain tu hwnt i "Clic" ar y we a thrwy Ap ar gyfer dyfeisiadau symudol, yn wir er mwyn gwneud hyn bydd y gost yn waharddol oherwydd isadeiledd presennol y sianel. Mae cynnwys S4C ar gael i wylio trwy'r iPlayer ond dyw'r sianel, na'r cynnwys, ddim yn derbyn yr un statws a chynnwys y BBC sy'n golygu fod amlygrwydd ac o'i herwydd y gallu i'w ddarganfod yn her.

35 Mae'r newid mwyaf yn y gofod "darlledu" wedi dod o gyfeiriad gwbl wahanol, Netflix ag Amazon, cwmnïau sy'n dosbarthu cynnwys trwy'r rhyngrwyd i setiau deledu a dyfeisiadau symudol. Mae YouTube wedi cyhoeddi ym mis Chwefror 2017 eu bod hwythau yn symud i'r gofod "teledu" ar alw. Gydag argaeledd band llydan cyflym iawn yn bron i bob cartref yng Nghymru erbyn diwedd 2017, mae'r gallu i gwmnïau o'i bath fwyta siâr o gynulleidfa S4C, yn enwedig ymysg y "millennials" yn cynyddu. Taflwch i'r bowlen y ffrwydrad yn y defnydd gan gynulleidfaoedd o wylio cynnwys trwy

rwydweithiau cymdeithasol. Mae'r ystadegau, a gyhoeddwyd gan y sianel yn Ionawr 2017, ar y lefel o wylio o gynnwys S4C ar Facebook a llwyfannau digidol YouTube a Twitter yn ystod mis Rhagfyr 2016, 2,200,000, cynnydd o 300% o fis Awst yr un flwyddyn, yn brawf o hyn, ac mae angen canmol S4C am arloesi yn y gofod hwn.

36 Er bod y gwylio unionlin yn aros yn ei unfan ag am ddirywio wrth i'r gynulleidfa 65+ mynd yn hun, mae'r potensial o gyrraedd cynulleidfaoedd iau yn amlwg, gyda'r cynnwys iawn ar y llwyfannau iawn.

37 Be sy'n atynnu pobol at Netflix a gwasanaethau ffrydio cynnwys? Beth yw'r cynnwys mwyaf poblogaidd ar yr iPlayer? Cynnwys o safon, dramâu drudfawr.

38 Roedd y gost o gynhyrchu dwy gyfres o House of Cards gan Netflix, 26 pennod awr, yn gyfatebol i gyllid blynyddol S4C yn ei gyfanrwydd, oddeutu £82miliwn.

39 Mae'r oes o ddewis cynnwys ar sail iaith yn unig wedi hen basio, rydym oll yn rhan o gynulleidfa ryngwladol. I gystadlu yn y maes mae angen sicrhau cynnwys o safon a pherthnasedd yn y Gymraeg, a sicrhau fod arian digonol ar gael i'w hyrwyddo yn y manau cywir a pherthnasol. Mae angen sicrhau fod cynnwys Cymraeg ar gael i wylio ar-alw o fewn ffenestri hawliau ehangach, blynyddoedd yn lle 35 diwrnod. Bydd cost yn perthyn i hyn.

40 Felly i ateb y 5 pwynt.

41 Arian digonol - Mae'n dibynnu'n llwyr ar y gwasanaeth mwyaf priodol am yr oes yr ydym yn byw ynddi heddiw. O ddechrau o'r newydd a datblygu model busnes newydd gellir cynnig gwasanaeth arloesol a safonol am £84,000,000. Mae'r syniad o ariannu allan o'r ffi drwydded yn gwbl addas, ac os gall S4C y dyfodol darparu cynnwys ar gyfer y byd addysg yn y ddwy iaith fel rhan naturiol o'i llif gwaith gall hyn gwneud yr achos am ariannu ychwanegol.

42 Mae angen i ni fel Cymru a sector cynhyrchu fod yn fwy uchelgeisiol wrth greu refeniw ychwanegol ar gefn y cynnwys rydym yn creu. Mae angen yr uchelgais gall swmp o'r cynnwys y greuwyd yma yng Nghymru, yn y Gymraeg, fod a gwerth a pherthnasedd ar y farchnad ryngwladol.

43 Gall sefydlu Corff Cyhoeddi Cymraeg sydd yn gyfrifol am oruchwylio porth cynnwys o'r newydd fel Netflix yn y Gymraeg sicrhau fod Cymru a'r iaith Gymraeg yn arwain y ffordd wrth ddatblygu model newydd ar gyfer gwasanaeth dosbarthu cyhoeddus yn lle'r gwasanaeth darlledu cyhoeddus presennol. Yn dod a gwaith presennol S4C, y BBC ac asiantaethau perthnasol eraill fel cyngor y celfyddydau a'r cyngor llyfrau efo'i gilydd.

44 Cylch gwaith statudol – Eto yn ddibynnol yn llwyr ar y model sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y dyfodol, heb wybod beth yw'r model yna mae'n anodd rhoi barn, ond yn amlwg mae angen iddo adlewyrchu'r oes yr ydym yn byw ynddi heddiw a bod yn addas ar gyfer y newidiadau sydd ar dro. Mae angen gwarantu gwasanaethau newyddion a phlant gwir aml blatfform o fewn unrhyw gylch gwaith statudol newydd.

45 Llywodraethiant – Fe ddylai Cymru fod digon aeddfed erbyn i hyn i gymryd gofal dros y cyfryngau, mae angen i'r llywodraethiant hyn ymestyn tu hwnt i'r ffiniau "darlledu" presennol i gynnwys ar rhwydweithiau cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddi ar-lein, boed yn wefannau newyddion neu "sianeli deledu".

46 Perthynas a'r BBC – Awgrymaf yn gryf bod y pwyllgor yn ymweld ag EITB yng ngwlad y Basg i weld sut mae darlledwr cyhoeddus o fewn "cenedl" sydd â lefel uchel o ddatganoli yn gweithredu, mewn dwy iaith a mwy nac un cyfrwng.

47 Gall sefydlu Corff Cyhoeddi Cymraeg o'r newydd gynnig ateb i'r pum pwynt mae'r ymgynghoriad yma wedi gosod fel ffocws. Gellir sefydlu canolfannau cynnwys mewn mwy nag un lleoliad yng Nghymru a thrwy hynny sicrhau presenoldeb a gwelededd corfforol ym mhob cornel o'r wlad ac nid mewn dau leoliad oddi'r M4 a thrwy hyn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei weld fel iaith a diwylliant gymunedol byw.

48 Gwelededd S4C – Pa hyd sydd i oes yr EPG? Be sydd wir angen sicrhau yw bod modd darganfod cynnwys yn y Gymraeg mewn byd gynyddol ddigidol. Bydd pwyso botymau ar "remote" yn hen hanes yn gynt na'r disgwyl, darganfod trwy lais yw'r dyfodol, mae hyn yn her a bygythiad i'r Gymraeg, mae angen buddsoddiad i sicrhau technoleg adnabod lleferydd safonol yn y Gymraeg. Sicrhau gwelededd o fewn llwyfannau cyfoes fel Apple TV, YouTube a Facebook fydd y flaenoriaeth.

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r Pwyllgor wedi cydnabod y materion sy'n wynebu S4C, sut mae cyllido a llywodraethu'r Sianel ond, rydym yn credu y dylai'r materion yma gael eu hystyried mewn cyd-destun ehangach. Mae'r cyflwyniad hwn felly, tra'n ymdrin â'ch gofynion manwl lle bo hynny'n berthnasol, yn delio ar y cyfan â materion ehangach rydym yn gwahodd y pwyllgor i'w hystyried.

1.2 Sefydlwyd S4C i ddarparu gwasanaeth teledu yn Gymraeg. Ond, mae symlrwydd y disgrifiad yma yn cuddio'r rhwydweithiau cymhleth o wleidyddiaeth a thensiwn cymdeithasol a arweiniodd at ei greu. Fe dderbyniodd llywodraeth y DU yn y pen draw bod angen gwneud iawn am farchnad oedd yn methu ac fe gafwyd ateb oedd yn parchu hawliau siaradwyr Cymraeg i gael eu bywydau wedi eu cynrychioli a'u portreadu yn well ar brif gyfrwng gweledol y cyfnod.

1.3. Mae'r cyfryngau heddiw yn edrych yn wahanol iawn. Yn y byd digidol sydd ohoni, mae cynnyrch print, sain a fideo yn rhannu'r un platfformau dosbarthu. Mae'r rhan fwyaf o'r rhyngweithio rhwng y llywodraeth, cyrff cyhoeddus, y sector breifat ac unigolion bellach yn ddigidol. Mae cyfryngau cymdeithasol wedi datblygu i fod yn flanced sy'n cael ei thaenu dros bob agwedd o fywyd cymdeithasol a diddordebau pobl. Mae'r cymunedau digidol sy'n ymddangos wedi creu byd newydd lle mae'r teledu yn gorfod brwydro am ei le.

1.4. Mae platfformau digidol wedi golygu trefn byd newydd o ran cynnwys. Mae globaleiddio wedi arwain at gewri busnes newydd sy'n annhebyg o ystyried anghenion Cymru, heb sôn am yr iaith Gymraeg. Mae datblygiadau digidol yn cynnig cyfleoedd i gyflwyno cynnwys a thyfiant economaidd. Mae angen sefydlu strwythurau sy'n rhoi llais digonol i Gymru yn y datblygiadau yma.

1.5 Byddai'r ffactorau yma yn unig yn golygu y byddai'r S4C a sefydlid heddiw yn annhebyg iawn i'r un sydd gennym. Rydym o'r farn bod yr adolygiad yma yn gyfle i greu corff newydd gwell sy'n gymwys i'r oes

ddigidol, gan gyfuno gwasanaethau presennol Cymraeg eu hiaith a gwasanaethau sy'n cael eu cyllido gan lywodraethau Cymru a'r DU.

## 2. Cylch Gwaith S4C

2.1. Rydym yn credu mai prif orchwyl S4C ddylai fod creu cynnwys i ddarparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg ac wrth wneud hynny gynnal a meithrin yr iaith Gymraeg a'r cymunedau. Nid yw ei strwythur, cyrhaeddiant na'i adnoddau presennol yn gymwys i'r swyddogaeth honno. Mewn byd digidol nid yw'r teledu ei hun yn ddigon.

2.2 Mae gan y llywodraeth strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg sy'n cael ei derbyn yn gyffredinol ar hyd a lled Cymru. Mae hyn yn cadarnhau ein bod yn wlad ddwyieithog ac mae angen cefnogaeth a hwb ar yr iaith Gymraeg er mwyn i'r iaith allu chwarae rhan briodol ym mhob agwedd o fywyd Cymru. Mae'r hen frwydrau dros yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mwy neu lai yn rhan o'r gorffennol ac yn codi eu pen yn bennaf pan fo anghydfod am beth sy'n bosib i'w gyflawni. Mae addysg cyfrwng Gymraeg wedi bod yn llwyddiant oherwydd y dewisiadau gan rieni, y rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gymaint â'r rheiny sy'n rhugl.

2.3 Y byd digidol yw'r diwylliant byd eang cyntaf ac mae'n creu amgylchfyd sy'n creu trafferthion i bob iaith. Saesneg yw iaith yr oes ddigidol ac mae'n cael effaith ar bob iaith yn enwedig y rheiny nad ydynt yn hanesyddol yn cael eu hystyried yn ieithoedd rhyngwladol. Nid gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn unig mwyach sy'n dioddef o fethiant yn y farchnad. Fodd bynnag, mae angen atebion newydd i'r methiannau yna heddiw.

2.4 Mae'n llywodraethau wedi gweld yn angenrheidiol ac yn dda i roi cymorth ariannol i ystod eang o wasanaethau a chynhyrchion Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys teledu, radio a ffilmiau, llyfrau, papurau newydd, yr Urdd, deunyddiau addysgol a'r celfyddydau. Rhoddwyd cyllid i fentrau cymunedol hefyd, yn arbennig y Mentrau Iaith.

2.5 Credwn fod yna ddadl dros ddwyn ynghyd y gosod strategaeth, cyllido a chyflwyno'r cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn. Byddai'r strategaeth hon a fyddai'n fwy cydlynol yn gwasanaethu anghenion y Cymry a'r iaith yn well. Gall amrywiaeth y ffynonellau cyllid a'r gwahanol ofynion o ran llywodraethu

greu anawsterau ond anawsterau gwleidyddol fyddai'r rheiny'n bennaf yn hytrach na rhai ymarferol.

2.6 Mae sawl maes y gellid ystyried eu cynnwys yma:

Nid yw cael S4C yn gofalu am deledu a'r BBC yn gofalu am Radio Cymru yn gwneud dim synnwyr a dylai'r ddau wasanaeth ddod ynghyd o dan S4C.

Mae'r diwydiant ffilm Cymraeg yn cael ei gefnogi'n uniongyrchol lle'n briodol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i strategaeth economaidd ehangach ar gyfer ffilm. Mae'n ddealladwy mai dim ond yn achlysurol iawn y gellir gwneud achos economaidd dros ffilmiau Cymraeg eu hiaith a byddai S4C newydd mewn lle gwell i benderfynu pa brosiectau sy'n haeddu cefnogaeth.

Caiff deunydd clyweledol arall, am resymau hanesyddol, gefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Bu'r Papurau Bro ymhlith y cynlluniau mwyaf llwyddiannau o ran yr iaith Gymraeg yn y blynyddoedd diwethaf. Gallai strategaeth ddigidol a chefnogaeth ganolog i'r cynnwys fod y cam mawr nesaf i'r sector hon. Mae'r Papurau Bro wedi'u gwreiddio yn ein cymunedau ac felly y dylent aros ond gyda chymorth gallent fod gymaint yn fwy llwyddiannus.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi methu â chyflwyno strategaeth ddigidol gydlynol a gallai gael ei le yn hawdd mewn corff newydd. Bu llyfrau a phapurau newydd Cymraeg yn araf yn symud i'r cyfrwng digidol. Mae hyn yn annerbyniol mewn diwydiannu lle mae systemau dosbarthu'r dyfodol yn ddigidol. Mae'r potensial i wella traws-hyrwyddo a chydlyniant mor fawr fel bod angen gweithredu ar frys.

Mae'r systemau addysg i gyd yn symud tuag at y defnydd o gynnwys digidol a chlyweledol. I'r iaith Gymraeg, bydd costau ac anawsterau darparu cynnwys o safon cystal â'r Saesneg yn mynd yn broblem gynyddol. Yn y cyfamser, mae S4C ers blynyddoedd wedi cael llwyddiant mawr gyda rhaglenni i'r plant iau ond yn gyffredinol nid yw'r cynnwys hwnnw'n rhan o'r cwricwlwm ysgol. Yn y cyfamser mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu cynnwys addysgol fe y bo'r angen i ddiwallu ei anghenion. Mae'r potensial i gydlynu yma yn amlwg ond gall fod yn fwy cost-effeithlon ac yn cynnig cynnwys gwell pe bai'r S4C newydd yn gorfod darparu cynnwys sy'n fwy agos at y maes llafur, ac yn cael cyfrifoldeb dros gomisiynu cynnwys addysgol arall hefyd.

Mae Cyngor y Celfyddydau yn chwarae rhan amlwg yn y celfyddydau Cymraeg. Serch hynny, mae'r celfyddydau yn gonglfaen pwysig i'r diwylliant Cymraeg ei iaith ehangach hefyd ac eto byddai ymagwedd gydlynol yn gallu cyflwyno manteision yn y tymor hir. Er enghraifft, mae llawer o'r celfyddydau yng Nghymru yn y byd amatur ac yn cael eu cyflwyno gan grwpiau lleol drwy eisteddfodau, yr Urdd a'r Mentrau Iaith. Mae S4C eisoes yn bwysig iawn o ran arddangos a hyrwyddo'r digwyddiadau hyn. Pam na all ei gylch gwaith gynnwys y materion hyn, eu strategaeth a'u cyllid.

Rydym yn ffodus fod corff cyhoeddus yn bodoli'n barod, sef S4C, a all esblygu i gynnwys y meysydd eraill hyn yn ei gylch gwaith.

## 3. Llywodraethu

3.1 Ar yr olwg gyntaf mae'n ymddangos fod materion llywodraethu dybryd o anodd i ddelio â nhw wrth greu corff newydd ar hyd y llinellau a ragwelwn. Ond credwn mai arwynebol ar y cyfan yw'r pryderon am lywodraethu ac y gellir ymdrin â nhw'n gymharol hawdd.

3.2 Nid yw'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd yn gweithio'n dda beth bynnag. Nid yw setliad datganoli presennol y DU wedi cynnwys trefniadau boddhaol ar gyfer rheoli gwasanaethau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (DGC). Ni chafodd y llywodraethau datganoledig newydd eu cydnabod na'u cynrychioli. Nid oes unrhyw sefydliad darlledu wedi bod yn uniongyrchol atebol i bobl Cymru.

3.3 Ychydig iawn o ystyriaeth o effaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus y mae'r trefniadau llywodraethu presennol yn eu cymryd o gynifer o elfennau o fywyd Cymru – yn wleidyddol, diwylliannol, addysgol ac economaidd – y mae Llywodraeth Cymru â chyfrifoldeb drostynt. Nid oedd y trefniant hwn yn gynaliadwy. Mae'r achos dros ail-gyflunio pwerau a chyfrifoldebau i roi mwy o lais i bobl Cymru i benderfynu ar ofynion a monitro cyflawni DGC yng Nghymru wedi'i gydnabod bellach, o leiaf yn achos y BBC gyda'r Siarter newydd.

3.4 Nid yw darlledu wedi'i ddatganoli ac nid oes consensws gwleidyddol i wneud hynny. Mae'r cyllid i'r gwasanaethau a'r cynhyrchion a restrwn uchod yn amrywiol a chymhleth. Caiff ei gyflenwi gan ddwy lywodraeth, y BBC a gan

weithgareddau masnachol. Darperir y cyllid drwy drefniadau tymor hir megis ffi trwydded y BBC a chyllid tymor byr sy'n amrywio mewn hyd a sicrwydd gan y llywodraeth ganolog  a nifer o adrannau Llywodraeth Cymru, weithiau gan gyrff hyd braich fel Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Mae gan Ofcom rôl hefyd fel rheoleiddiwr.

3.5 Nid oes raid i ddatod y buddiannau gwahanol hyn fod yn broblem fawr ac os yw'r strwythurau iawn yn cael eu gosod yn eu lle, gellir cyflwyno elfennau gwahanol y corff newydd yn raddol dros amser.

3.6 Fel y mae ar hyn o bryd, mae gan S4C broblemau llywodraethu sydd angen eu datrys ar frys. Mae'r trefniadau presennol rhwng y DCMS, y BBC, Ofcom, Llywodraeth Cymru ac S4C yn cael eu trafod oherwydd bod angen trafodaeth gyhoeddus am weithredu Siarter newydd y BBC ac mae'r DCMS wedi ymrwymo i gynnal adolygiad pellgyrhaeddol o S4C.

3.7 Ni ddylid gadael i'r un o'r trafodaethau hyn anwybyddu'r angen am gyllid digonol a chynaliadwy i wasanaeth teledu S4C. Cynnwys teledu traddodiadol, sut bynnag y'i dosberthir, fydd prif ffordd pobl o gael cynnwys am y dyfodol rhagweladwy. Bydd gwasanaeth teledu Cymraeg ei iaith yn aros wrth galon diogelu, cynnal a datblygu'r iaith.

3.8 Ar hyn o bryd daw cyllid i S4C gan drwydded y BBC, y DCSM, gweithgareddau masnachol S4C a'i gronfa fasnachol, a adeiladwyd o fuddsoddiadau masnachol blaenorol. Er bod lefel y cyllid yn mynd i aros yn bwnc llosg, nid yw'r ffynhonnell yn creu unrhyw gyfrifoldebau neu anawsterau llywodraethu y tu hwnt i'r rheiny sydd gennym yn barod. Eisoes mae materion llywodraethu sy'n effeithio ar y berthynas rhwng llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Ofcom a'r BBC sydd angen eu trafod a'u datrys.

- Mae rôl aelod Bwrdd newydd y BBC i Gymru yn dra gwahanol i sut yr oedd o dan y trefniadau blaenorol. Mae'n fwy na phwynt arwynebol fod y person yn cael ei benodi gan y Frenhines yn y Cyfrin Gyngor. Mae gan Lywodraeth Cymru ran yn y broses benodi ac mae'n rhaid i'r penodiad gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn ogystal â'r DCMS. O dan y Siarter newydd mae rhwymedigaethau corfforaethol newydd gan y BBC i Gymru. Mae yna hefyd gyfrifoldebau unigol i'r aelod Bwrdd newydd o ran y llywodraeth hon a'r Cynulliad. Rhagwelir gwrthdaro rhwng cyfrifoldebau'r unigolyn i Gymru ac i'r BBC drwy'r

trefniadau hyn er nad oes ateb hawdd wedi cael ei awgrymu. Bydd y gweithio agos a'r berthynas gyllido rhwng y BBC ac S4C yn cyfrannu at y gwrthdaro cyfrifoldebau yma.

- Bydd gan Ofcom gylch gwaith penodol Gymreig hefyd yn cwmpasu rheoleiddio traddodiadol a bellach yn sicrhau fod y Drwydded Wasanaeth i Gymru yn cael ei chyflwyno gan y BBC. Bydd yr ail elfen yn ymestyn, er enghraifft, i sicrhau fod y BBC yn dwyn buddion economaidd i Gymru fel ag yr addawyd gan y BBC. Mae'n debyg y bydd angen cymryd agwedd debyg gyda S4C fel rhan o'i drefniadau cyllido a bydd angen i Ofcom fonitro hyn.

- Gydag ymagwedd ymgynghorol a rheoleiddiol i Drwyddedau Gwasanaeth y BBC, nid yw'n ymarferol fod y materion hyn o safbwynt gwasanaethau'r iaith Gymraeg yn cael eu gadael yn llwyr i Awdurdod S4C. Nid oes ond angen ystyried beth allai fod gofyn i'w gwasanaethau eu gwneud i ddangos hyn. Gallai'r rhain gynnwys:

    - Nifer yr oriau darlledu ar y teledu sydd eu hangen i gynnal gwasanaeth llawn

    - Y mathau o raglenni i'w gwneud, yn ôl genre, o bosibl

    - Diffinio'r gwasanaethau newyddion a materion cyfoes sydd eu hangen

    - Gwasanaethau ar-lein

    - Portreadu pobl ledled Cymru

    - Gofynion effaith economaidd

    - Ymrwymiadau i hyfforddi a datblygu sgiliau yn y diwydiant

    - Ymrwymiadau ynghylch y berthynas rhwng y gwasanaethau a'r system addysg yng Nghymru.

    - Ymrwymiadau ynghylch y berthynas rhwng gwasanaethau S4C a pholisi Llywodraeth Cymru (a rhwymedigaethau cyfraith ryngwladol y DU) o ran hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg

## 4. Casgliad

4.1 Yn y dyfodol rydym yn mynd i weld ymagwedd lywodraethu lawer mwy haenog i ddarlledu ac mae'r cwestiwn a fydd yn cael ei datganoli'n ffurfiol yn llai pwysig nag y mae pobl yn credu. Bydd y strwythurau sydd yn eu lle yn barod yn gofyn i lywodraethau Caerdydd a Llundain, y BBC a S4C, ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio.

4.2 Mae cadw'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen gan y llywodraeth ganolog, y BBC yn ganolog ac Ofcom a chydbwyso hyn ag anghenion llywodraethu Cymru eisoes yn broblem p'un ai bod S4C yn aros fel y mae neu'n datblygu'n gorff sy'n fwy perthnasol i anghenion ehangach Cymru.

4.3 Mae S4C wedi ei ailstrwythuro sy'n atebol mewn ffordd wahanol efallai i'w amrywiol gyllidwyr a rheoleiddwyr, ei ddau noddwr llywodraeth ac i bobl Cymru, yn bosibl. Gallai corff o'r fath sy'n cydlynu strategaethau a gofynion ei randdeiliaid fod yn drawsnewidiol wrth gau'r bylchau sy'n ymddangos rhwng yr iaith Gymraeg a'r byd modern. Nid yw teledu yn ddigon mwyach. Nid yw S4C fel y mae yn ddigon mwyach. Mae pawb sydd wrthi'n trafod y materion hyn yn honni eu bod yn gweithio i gael y gwasanaethau gorau posibl i Gymry Cymraeg ac i Gymru. Mae'r ateb gorau yn golygu dwyn ynghyd strategaeth, gwasanaethau a chynhyrchion, cyllid a llywodraethu.

Ymateb gan Comisiynydd y Gymraeg / Evidence from Welsh Language Commissioner

## Cefndir

Mae Comisiynydd Y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i roi sylw ar yr ymchwiliad. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny bydd y Comisiynydd yn ceisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau, a thrwy gyfleoedd eraill. Yn ogystal, bydd 'I Comisiynydd yn rhoi sylw i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru a'r dyletswyddau statudol i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod safonau.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd sef

- na ddylid trio y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru Be
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu at yr ystyriaeth 8 roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir sylwadau yn unol a'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol. darpariaethau'r Mesur.

Yn unol â hynny, cynigir isod sylwadau mewn perthnasol chylch gorchwyl yr ymchwiliad.

## Rôl a chyfraniad S4C

Mae darlledu yn chwarae than hollbwysig mewn hyrwyddo ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol ar draws y byd ac yng Nghymru. Fel yr unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg ym Mhrydain a'r unig sianel! deledu Gymraeg yn y byd, mae gan S4C rôl unigryw yn y gwaith o sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu.[1]

[1] Llywodraeth Cymru, *laith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012-17* (2012), tt. 47-48.

Mae effaith y Sianel yn amlochrog ac amrywiol Mae S4C yn codi statws a chynyddu defnydd y Gymraeg yn rhinwedd ei rôl fel cyflogwr sy'n cefnogi cwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae S4C hefyd yn cyfrannu at dyfu economi Cymru drwy fuddsoddi a chreu swyddi yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg af ei chryfaf.

Mae'r Gymraeg yn gwbl ganolog i waith S4C. Dywed S4C ei hun: 'Mae'r Gymraeg wrth wraidd cylch gwaith a bodolaeth S4C... Mae S4C yn rhan hanfodol o'r ymdrech i greu amgylchedd lle mae'r iaith yn ffynnu, yn fywiog ac yn fyw, amgylchedd lle mae gan bobl y dewis o fwynhau a thrafod adloniant, newyddion, chwaraeon a'r celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg – yn y gwaith a gartref.[2]

Er hyn, nid yw cylch gorchwyl statudol presennol S4C, fel y'i gosodir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 ('Communications Act 2003'), yn mynegi'n glir rôl y sianel wrth gynnal, cefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae adolygiad o'r sianel yn cynnig cyfle gwerthfawr i fanylu ac adeiladu ar y gylch gorchwyl presennol, gan danlinellu cyfraniad canolog S4C at ffyniant yr iaith Gymraeg – a statws canolog y Gymraeg yn y gwasanaethau a ddarperir gan S4C.

Dylid ystyried addasu cylch gorchwyl presennol S4C er mwyn iddo fynegi'n glir cyfraniad hollbwysig S4C at ffyniant yr iaith Gymraeg; a thanlinellu bod y Gymraeg a'i defnyddwyr wrth galon y gwasanaeth a ddarperir gan y sianel.

## Ariannu S4C

Ers 2011 dioddefodd S4C ergydion ariannol difrifol. Cafodd cyllideb y sianel doriad sy'n gyfwerth 0 36% mewn termau real dros y pedair blynedd ddiwethaf. Rhwng 2011 a 2015 gwnaethpwyd arbedion effeithlonrwydd sy'n gyfwerth A £12.5 mln.[3] Mae gorbenion y sianel pellach yn gyfwerth â thua 4% y gwariant. Gellir dadlau bod y toriadau ariannol bellach i'w gweld yn effeithio ar arlwy y sianel. Er enghraifft, yn 2010 cyflwynwyd gwasanaeth manylder uwch ond penderfynwyd ei hepgor erbyn diwedd 2012 ar mwyn

[2] S4C, *S4C: Edrych I'r Dyfodol* (2015). t 10 [http://www.s4c.cymru/media/media_assets/s4c-edrych-ir-dyfodol.pdf]

[3] S4C, *Adroddiad Blynyddol 2014/15* (2015), tt. 54-55 [http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2015.pdf]

gwneud arbedion.[4] Ailgyflwynwyd y gwasanaeth yn 2016 ond bydd mewn perygl eto os daw toriadau pellach.[5] Mae nifer yr ailddarllediadau ar S4C yn dystiolaeth bellach o'r her ariannol y mae'r sianel yn ei wynebu. Erbyn hyn, mae 57 y cant o gynnwys S4C yn ailddarllediadau – o gymharu â 5 o gynnwys y BBC. O ystyried hyn, nodwn gyda chryn bryder fwriad y Llywodraeth i gyflwyno toriad ariannol pellach cyn cynnal adolygiad o S4C.[6]

O ystyried maint anghymesur y toriadau y gosodwyd ar S4C hyd yn hyn, yn ogystal â maint yr arbedion effeithiolrwydd a wnaethpwyd gan y sianel, byddai unrhyw doriad pellach yn afresymol ac yn peryglu dyfodol y sianel a'i gallu i barhau i gefnogi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Galwn ar 'I Pwyllgor i bwyso am atal unrhyw doriadau pellach i gyllideb S4C.

Ar yr un pryd, mae ar S4C angen cyllideb syn addas ef mwyn caniatáu ar gyfer diwallu anghenion amrywiol cynulleidfaoedd cyfrwng Cymraeg heddiw ac yn y dyfodol – a hyn ar sail yr uchelgais a rhagamcaniad y bydd nifer o siaradwyr y Gymraeg yn cynyddu dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n allweddol bod gan S4C y gallu i gefnogi a chyfrannu at y twf hwnnw. Dylid anelu at dwf digonol yng nghyllideb y sianel ef mwyn caniatáu iddi gyflawni'r nod hwn.

Yn ôl S4C ac eraill, dylai'r gyllideb fod yn ddigonol ar mwyn caniatáu ar gyfer:

– lleihau nifer yr oriau o raglennu wedi eu hailadrodd a chynyddu'r canran o gynyrchiadau gwreiddiol;

– Datblygu ei chynnig rhaglenni plant a phobl ifanc;

– Gwreiddio ei chynnig gwasanaeth manylder uwch, gyda sicrwydd ariannol na fydd rhaid hepgor y gwasanaeth honno eto;

---

[4] Sefydliad Materion Cymreig, *IWA Wales Media Audit 2015* (2015), t. 15 [http://www.clickonwales.org/wp-content/uploads/IWA_MediaAudit_v3.pdf]

[5] Gweler tystiolaeth Huw Jones ac Ian Jones (S4C) i'r Pwyllgor Materion Cymreig, 30 Ionawr 2017: [http://www.parliament.uk/Business/Committees/Committees-a-z/commons-select/Welsh-affairs-committee/news-parliament-2015/s4c-review-one-off/]

[6] 18 Ionawr 2016 awgrymodd Gweinidog Matthew Hancock fydd S4C yn derbyn £6.058mln yn y flwyddyn ariannol nesaf (2017/18).
Byddai hyn yn gyfateb â doriad o bron £0.7mln I gyllideb S4C. 9 Chwefror 2017 haeriodd David Hanson AS fod yn unol â rhagamcaniad presennol, bydd S4C yn derbyn toriad o 10 y cant erbyn 2021.

- Pamau i ddatblygu ei phresenoldeb ar draws platfformau amrywiol, a datblygu ei chynnig i wahanol grwpiau cymdeithasol ac oedran;
- Gwena hygyrchedd ei chynnwys, gan gynnwys ehangu ei chynnig o is-deitlau Cymraeg.

Dylid arfogi S4C yn ariannol i dyfu a datblygu ei darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith y dyfodol. Gofynnwn i'r Pwyllgor fynegi cefnogaeth i'r weledigaeth honno.

Yn ystod yr adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC y flynedd bu cryn dipyn o sylw cyhoeddus i ffigyrau gwylio'r gwasanaethau a ddarperir gan y BBC i'r gynulleidfa Cymraeg ef hiaith. Mae hynny wedi ei godi hefyd mewn perthynas â darpariaeth S4C. Ni fyddai fformiwla ariannu ar gyfer S4C syn rhoi pwys af niferoedd gwylio ac sy'n cymharu niferoedd gwylio S4C â darlledwyr eraill yn fformiwla addas. Mae cyd-destun S4C yn unigryw yng Nghymru yn yr ystyr ei fod yn ddarlledwr rhaglenni! mewn iaith leiafrifol ac felly nid yw cymharu niferoedd ef gwylwyr gyda niferoedd gwylio darlledwyr eraill yn briodol. Dylid penderfynu'r gyllideb ar sail teilyngodd S4C ef hun, a'i chyfraniad unigryw at fywyd diwylliannol, cymdeitha90l ac economaidd yng Nghymru.

Gofynnwn i'r Pwyllgor bwysleisio y dylai fformiwla ariannu S4C adlewyrchu ei chyfraniad unigryw at fywyd diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.

Pa bynnag drefniadau cyllido gaiff eu cytuno ar gyfer S4C yn y dyfodol mae'n hanfodol bod y drefn newydd honno'n cynnig sicrwydd ariannol hirdymor fydd yn caniatáu ar gyfer cynllunio pwrpasol dros amser.

Gofynnwn i'r Pwyllgor bwyso am drefniant ariannu S4C sy'n cynnig sicrwydd ariannol hirdymor er mwyn galluogi'r sianel i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

## Llywodraethiant ac atebolrwydd S4C, a pherthynas â'r BBC

Nid oes gennym ymateb manwl i'r gynnig i'r cwestiwn yma, ond yn amlwg dylai fframwaith rheoleiddio S4C ddiogelu annibyniaeth olygyddol a gweithredol y sianel, yn yr hirdymor.

## Gwelededd S4C

Gwelwyd yn ddiweddar newidiadau i batrymau gwylio a gofynion y gynulleidfa sydd wedi trawsnewid y tirlun darlledu yn y Deymas Gyfunol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnig cyfleodd i ddarlledwyr; ond hefyd yn gosod heriau cynyddol.

Mae'n amlwg bod S4C yn ceisio manteisio ar y cyfleodd trwy ehangu ai chyrhaeddiad ar lein ac ar draws platfformau amrywiol. Cyfrannodd lansiad S4C ar BBC iPlayer at dwf trawiadol yn nifer porwyr unigol wythnosol cynnwys cyfrwng Cymraeg. Bellach gellir cyrchu cynnwys S4C af blatfformau megis Sky, Freesat, Virgin Media a YouVIew;[7] a thrwy apiau ar ddyfeisiau iOS ac Android. Mae'r datblygiadau hyn yn ddifyr ac i'w croesawu.

Mae angen buddsoddi er mwyn arloesi. Yn ôl Ofcom, gallasai'r newidiadau i’r dechnoleg ac ymddygiad defnyddwyr olygu mwy o straen ar gyllidebau darlledwyr cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod.[8] Os felly, gellir dadlau bod y toriadau dros y blynyddoedd diwethaf i gyllideb S4C yn gosod y sianel mewn sefyllfa heriol a bregus.

Er y newidiadau diweddar mewn patrymau gwylio, mae defnydd y cyfryngau traddodiadol yn parhau'n gryf. Ym mam S4C, byddai symud gwasanaeth S4C yn gyfan gwbl i blatfformau digidol yn golygu colled o 60-65 y cant o wylwyr.[9] Mae'n allweddol felly i S4C allu parhau i feithrin a thyfu ei gwasanaeth teledu traddodiadol tra hefyd yn datblygu ei phresenoldeb ar blatfformau newydd.

---

[7] S4C, Adroddiad Blynyddol 2014/15 (2015), t. 6 [http://www.s4c.cymru/abouts4c/annualreport/acrobats/s4c-annual-report-2015.pdf]

[8] Ofcom, *Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn oes y rhyngrwyd* (2015) [https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/46295/psb_welsh.pdf].

[9] Gweler tystiolaeth Huw Jones ac Ian Jones (S4C) i'r Pwyllgor Materion Cymreig, 30 Ionawr 2017: [http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/welsh-affairs-committee/news-parliament-2015/s4c-review-one-off/]

Gofynnwn i’r Pwyllgor gydnabod ei bod yn hanfodol bod gan S4C gyllideb ddigonol ar gyfer arloesi a moderneiddio eu gwasanaeth digidol, ac i ddatblygu ei gwasanaeth gwylio traddodiadol, mewn ffordd sy'n hwyluso mynediad cynulleidfaoedd amrywiol at gynnwys cyfrwng Cymraeg safonol.

Hyderaf bydd y sylwadau hyn o gymorth i’r pwyllgor wrth gynnal ei ymchwiliad i ddyfodol S4C.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg